

ECO'R WYDDFA

RHIF 95

MEDI 1984

Pris: 20c

YMDDEOL O'R 'POST'



'Magi'r Post yr Eco'. Ein diolch iddi a'n dymuniadau gorau.

Mae Mrs Margaret Evans, Lloc, Llanrug wedi rhoi'r gorau i'w swydd o drefnu gwerthiant post Eco'r Wyddfa. Wrth drosglwyddo'r cyfrifoldeb i Mrs Enid Whiteside-Thomas roedd Mrs Evans yn torri cysylltiad a fu rhyngddi hi â'r papur o'r cychwyn.

Ar y dechrau gweithiai Mrs Evans ar y cyd gyda'i phriod, y diweddar Mr Thomas Evans. Roedd trefnu i anfon yr Eco i bedwar ban y byd yn orchwyl wrth fodd y ddau ohonynt. Mewn rhai ffyrdd roedd yn eu hatgoffa o'u gwaith beunyddiol cyn iddynt ymddeol. Hyd at 1965, sef blwyddyn eu hymddeoliad, arferai Mr a Mrs Evans gadw siop a swyddfa bost Lloc, ger Treffynnon, Clwyd.

Pan fu farw Mr Evans yn Ionawr 1978 fe ymgymerodd Mrs Evans â'r cyfrifoldeb ei hunan. Gyda'r un brwdfrydedd daliodd ati hyd nes yn ddiweddar pan orfododd amgylchiadau iddi roi'r gorau i bethau.

Yn haf 1985, ar drothwy ei phen-blwydd yn 80, yr oedd Mrs Evans wedi bwriadu gorffen. "Ond," meddai, "mae arwyddion fod fy ngolwg yn pallu a 'dwi'n tueddu i wneud camgymeriadau wrth osod y cyfrifon."

Er hyn, mae Mrs Evans yn dal yn fywiog ac ifanc ei hysbryd ac "yn gwneud beth alla' i" ym mywyd Llanrug. Mae'n llywydd pwyllgor yr Ysgol Feithrin (mudiad a oedd yn agos iawn at galon ei diweddar briod, hefyd). Hi oedd llywydd cyntaf Merched y Wawr y pentref - a bellach hi yw Llywydd Anrhydeddus y Gangen. Mae'n aelod ffyddlon o'r Capel Mawr a'r Ysgol Sul ac yn mynychu'r cyfarfodydd llenyddol a

Chymdeithas y Chwirydd sy'n gysylltiedig â'r capel.

Mae hi'n dal yn ffordd iawn o arddio ond erbyn hyn mae'r ardd yn ymddangos yn fwy - yn enwedig pan mae'n rhaid torri'r gwair! "Llafur bellach yn cymryd lle pleser," meddai.

Bu Mrs Evans yn hynod driw i'r Eco a chyflawnodd ei gwaith yn raenus ac effeithiol. Ennynodd barch ac edmygedd ei chyd-weithwyr yn ogystal â llu o'n darllenwyr "ar wasgar".



Mr G. Idwal Williams o Lanrug — cyntaf ar gyfansoddi dawnys werin i gwmni o fechgyn.

CYRRAEDD EI CHANT OED!



Mrs Jane Williams, 14 Hafan Elan, Llanrug yn torri ei chacen pen-blwydd. Gyda hi yn y llun mae ei chwaer, Miss A. Parry a Maer Arfon, y Cynghorydd G. Buckley Jones. (Gweler newyddion Llanrug)

ANRHYDEDDAU'R ORSEDD

Urddwyd dwy o ferched o fro'r Eco yng Ngorsedd y Beirdd yn Eisteddfod Llanbed - sef y Dr Eirwen Gwynn o Lanrug a Mrs Catherine Jones o'r Waunfawr.

Dyrchafwyd y Dr Eirwen Gwynn i'r Urdd Derwydd er Anrhydedd am ei chyfraniad i fywyd y genedl fel colofnydd, llenor, ysgrifwraig, nofelydd a dramodydd. Bu'n ysgrifennu'n gyson ar wyddoniaeth ac ar faeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn anffodus, oherwydd amgylchiadau, nid oedd yn bosibl i Dr Gwynn fynd i'r Eisteddfod ar gyfer ei harwisgo.

Derbyniwyd Mrs Catherine Jones, Crud yr Awel, Waunfawr i'r Urdd Ofydd er Anrhydedd. Cydnabyddwyd ei chyfraniad fel Prifathrawes Ysgol Arbennig Pendalar, Caernarfon ac fel un a arloesodd fel athrawes plant dan anfantais. Llwyddodd i allugoi'r plant i fyw bywyd llawn - tu fewn i gymdeithas. Llongyfarchiadau'r fro i'r ddwy ohonynt.



Dr Eirwen Gwynn o Lanrug.



Mrs Catherine Jones o'r Waunfawr.

LLWYDDIANT YN LLAMBED



Rhian Owen o Lanberis a Sian Gibson o Ddeiniolen.

ECO'R WYDDFA

RHIF 95
MEDI 1984

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 77163).

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Miss Jane Morris, 'Rallt
Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch,
Llanberis (871561)

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

NANT PERIS: Mrs J.E. Elis, 8
Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis
870 733).

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

MEDI 27ain

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

MEDI 18ed

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

'LLINYN MESUR' ar Radio Cymru

Annwyl Olygydd,

Tybed a gawn ni drwy
golofnau Eco'r Wyddfa ofyn am
gymorth eich darllenwyr i
grynhoi gwybodaeth bellach am
grefftwyrd ardalioedd Llanrug,
Llanberis a Llanddeiniolen ar
gyfer rhaglen newydd Radio
Cymru — Llinyn Mesur.

Os ydych wedi cael cyfle i
glywed Llinyn Mesur, yna mi
fyddwch yn gwybod mai rhaglen
am y cartre' yw hon — nid un yn
arbennig, ond ein cartrefi ni i gyd.
Yn eu tro mi fydd Carys Whelan
yn gwahodd y cynllunwyr a'r
gwneuthurwyr, y gwerthwyr a'r
defnyddwyr i bwysu a mesur
newyddau ac offer ar gyfer y
cartre'. Ac felly drwy golofnau
Eco'r Wyddfa dyma ni'n gofyn
am eich cymorth.

Rydym ni'n awyddus i gysylltu
â phawb yng Nghymru sy'n
cynnig gwasanaeth arbenigol i'r
perchennog tŷ. Tybed a oes 'na
grefftwyrd sy'n naddu offer cegin
neu'n adfer wyneb yr hn gloc
mawr yn eich ardal chi. Pethau
mawr, pethau bach, 'does dim
gwahaniaeth — os yw'r gwaith
yn unigryw ac o ddiddordeb i ŵr
neu wraig y tŷ fe hoffai Llinyn
Mesur gael gwybod amdany'n
nhw.

Ein gobaith yw medru llunio
rhestr gynhwysfawr o grefftwyrd
a gwneuthurwyr Cymru fydd yn
ddefnyddiol i ni i gyd. Felly beth
am yrru at:

**Llinyn Mesur, Stafell 3004, BBC,
Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ**

fel y medrwn ninne barhau i
bwysu a mesur bob bore Gwener
yn Llinyn Mesur.

Gyda diolch,
Eleri Hopcyn

Cynhyrchydd Llinyn Mesur.

GWAHODDIAD I GANU

Ddydd Sadwrn, Medi 15
gwahoddir holl gorau a chantorion
unigol Gogledd Cymru i ddiwrnod o
gerddoriaeth yn dilyn llwyddiant
canu'r 'Requiem' Brahms yn
Wrecsam ym 1983. Bydd rihysal
trwy'r dydd yng Nghanolfan
Chwaraeon, Y Rhyl, i'w ddilyn gan
berfformiad anffurfiol gyda'r nos o
'Y Greadigaeth' Haydn. Cefnogir y
rihysal a'r perfformiad gan
gerddorfa lawn ac unawdwyr
proffesiynol. Dechreuir am 10.45
a.m.

Y prif arweinydd fydd Roland
Morris ac fe drefnir y diwrnod gan
Gymdeithas Gelfyddydau Gogledd
Cymru gyda chydweithrediad parod
Undeb Corawl Y Rhyl a'r Cylch a
Chymdeithas Gorawl Llanellwy.

I gantorion gyda chopïau
cerddoriaeth eu hunain y pris fydd
£2.50 y pen gan gynnwys coffi yn y
bore a the yn y prynhawn. Y pris
fydd £3.00 y pen i gantorion fydd
angen hurio copïau.

Gellir cael manylion pellach oddi
wrth — Miss Sandra Wynne,

Cymdeithas Gelfyddydau Cymru,
d.o. Y Llyfrgell, Canolfan Daniel
Owen, Yr Wyddgrug, Clwyd. Ffôn —
Yr Wyddgrug 58403.

DOSBARTHADAU'R W.E.A. 1984-85

DEINIOLEN:

'Nes na'r hanesydd ...' (Chwilio am
y gwir). R. Maldwyn Thomas, MA.
Mawrth, 7.00pm yn Ysgol Gwaun
Gynfi. 6 chyfarfod o Fedi 25.

DINORWIG:

Trafod Llenyddiaeth. Ifor Baines,
BA.

Iau, 7.00pm yn y Ganolfan. 5
cyfarfod o Fedi 20.

LLANBERIS:

Arlunio. Barbara Owen, ATD.
Llun, 7.00pm yn Ysgol Dolbadarn.
20 cyfarfod o Hydref 1.

Gweithdy — mewn cydweithrediad
ag aelodau o Theatr Bara Caws.
Mercher, 7.30pm yn Ysgol
Dolbadarn. 5 cyfarfod o Hydref 3.

Dysgu Cymraeg. Sylvia Prys Jones,
DPhil.

Mawrth 7.00pm yn Ysgol
Dolbadarn. 20 cyfarfod o Fedi 25.

LLANRUG:

Chwilota i Hanes Dyffryn Peris. D.
Whiteside Thomas.

Llun, 7.00pm yn yr Ysgol Gynradd.
10 cyfarfod o Hydref 1.

RHIWLAS:

Byd Natur. Iori Ellis Williams, BSc.
Mawrth, 7.00pm yn yr Ysgol
Gynradd. 6 chyfarfod o Fedi 26.

LLANBERIS:

Cwrs yn Saesneg — 'Critical
Thinking'. R.J. Stanley, MA.

Llun, 7.00pm yn Ysgol Dolbadarn.
20 cyfarfod o Hydref 1.

WAUNFAWR:

Agweddau ar Hanes Cymru.
Gareth Wyn Jones, BA.

Llun (pob pythefnos) yn yr Ysgol
Gynradd. 8 cyfarfod o Hydref 29.

Arlunio. Huw Rh. Williams.

Gwener, 7.00pm yn yr Ysgol
Gynradd. 20 cyfarfod o Fedi 21.

Rhagor o fanylion am y cyrsiau
hyn ar gael yn ein rhaglenni, gan yr
ysgrifenyddion lleol, neu gan:

**Ifor Baines (Athro-Drefnydd) Ffôn:
Penygroes 881328.**

STORFA

Mace

John a Roberta

Griffith

Sgwâr

Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael o fwydydd,
llysiau a diodydd

Archebion at eich drws
Ffilmiau fideo £1 y noson

CYMORTH I'R GLOWYR A'U TEULUOEDD

Annwyl Olygydd,

Yn ystod yr wythnosau nesaf
bydd aelodau o Gymdeithas yr
laith Gymraeg a Grŵp Cefnogi'r
Glowyr yn Arfon yn mynd o
ddrws i ddrws yn Llanrug a nifer
o bentrefi eraill y fro i gasglu
bwyd ar gyfer teuluoedd glowyr
yn Ne Cymru. Eisoes danfonir
bwyd yn rheolaidd o Fangor,
Blaenau Ffestiniog, Llangefni a
sawldal arall yng Ngwynedd i'r
teuluoedd sy'n ei chael hi'n fwy
ac yn fwy anodd i fwydo'u hunain
drwy streic hir y glowyr.

Nid yw'r glowyr yn derbyn
unrhyw dâl streic, ond tynnir £15
yr wythnos o'u nawdd
cymdeithasol teuluol gan eu
gadael heb ddigon o fodd i
gynnal eu teuluoedd. Mae llawer
yn dioddef caledi ac aberth er
mwyn sicrhau dyfodol i'w plant.
Mae'r glowyr yn streicio er mwyn
achub 20,000 o swyddi ac i
ddiogelu dyfodol ein diwydiant
glo. Yng Nghymru mae llawer o
gymunedau'n dibynnu'n gyfan
gwbl ar y diwydiant hwnnw.
Hefyd mae llawer o siopau,
ffatrioedd a llu o wasanaethau
eraill yn dibynnu ar ffyniant y
meysydd glo. Fe gollir 1000,000 o
swyddi yng Nghymru os caiff
Thatcher a MacGregor eu ffordd.

Rydym yn ffyddiog y bydd
nifer cynyddol o werin bobl
Arfon am estyn cymorth i
deuluoedd y glowyr yn eu
hargyfwng. Byddwn yn galw i hel
unrhyw fwyd tun, bwyd sych neu
fwyd cadw (gan gynnwys bwyd
babanod) y gellwch ei roi neu
gyfraniadau arian i brynu bwyd
addas i'w anfon. Llwythir y bwyd
i fan unwaith yr wythnos a i'w yrru i
Gyfrinfa'r Onllwyn ble mae
gwragedd glowyr yn ei rannu
rhwng teuluoedd. Fel hyn helpir i
fwydo naw cant o deuluoedd.

Yn gywir ar ran y mudiadau
uchod,

Selwyn Williams

Cartref

Llanrug.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion
hael tuag at gostau cynhyrchu'r
Eco:

£5 — Mr a Mrs Jacob James, Regent
House, Deiniolen; Miss Jennie
Jones, Bryn Tirion, Waunfawr. £3 —
Teulu Mr D.A. Jones, Dakota,
Olgra Teras, Llanberis. £2 — Mrs
Mary Thomas, 7 Faenol Teras,
Deiniolen; Mrs E. Roberts, 12 Llys
y Gwynt, Penisarwaun; Miss Mair
Rees Jones, Tan y Caerau,
Clwt-y-bont; Teulu 22 Ffordd
Goodman, Llanberis; Mrs Eirwen
Williams, Llanrug; Mrs M. Evans,
32 Stryd Newydd, Deiniolen; Mr a
Mrs Arwel Roberts, Dyserth,
Clwyd. £1.50 — Miss Eiriona Owen,
29 Stryd Newydd, Deiniolen. £1 —
Mr David Williams, 1 Bron Helen,
Clwt-y-bont; Mrs Enid Williams, 3
Rhes Faenol, Deiniolen; Alwyn a
Valmai Williams, Hafle, Deiniolen;
Dewi a Sharon, Rhes Faenol,
Deiniolen.

£5: Mrs E. Wyn, Y Mans,
Bronwydd.

£2: Mr a Mrs Owen Jones, Y Garth,
Ceunant.

£1: Mr N. Thorman-Jones, 14 Tai
Caradog, Deiniolen.

CYMDEITHAS TAI ERYRI YN ARDAL YR 'ECO'

Cymdeithas Tai Eryri? Pwy ar y ddaear ydi rheini medda chi? Does bosib yn y byd i rywun wybod be ydi be, na phwy ydi pwy hefo'r holl Gymdeithasa' 'ma!


Dowch imi drïo egluro; i ddechrau, mae yna ddwy Gymdeithas Dai gyda'u swyddfeydd ym Mhenygroes, sef Cymdeithas Tai Gwynedd, a Chymdeithas Tai Eryri. Mae'r ddwy Gymdeithas yn gweithredu polisi o gartrefu teuluoedd yn yr ardaloedd yma, ond y gwahaniaeth mwyaf yw fod Tai Gwynedd a sefydlwyd yn 1971 yn dibynnu ar fenthyciadau a thanysgrifiadau gan aelodau o'r cyhoedd, tra mae Tai Eryri yn atebol i'r Gorfforaeth Letya sydd â'i swyddfa yng Nghaerdydd. Oddi yno y daw yr arian i brynu ac addasu y tai, ond yn anffodus oherwydd yr hinsawdd economaidd presennol ni thelir yr arian ond yn ôl mympwy y Llywodraeth. Er hynny mae gan y Gymdeithas ran bwysig i'w chwarae yn wyneb y galw am gartrefi, a chyflenwi gwaith yr awdurdodau lleol, sydd yn dioddef yn enbyd oherwydd y toriadau. Trwy ei chysylltiad uniongyrchol â'r Gorfforaeth mae'r Gymdeithas mewn sefyllfa i hawlio a defnyddio adnoddau ariannol gan y Llywodraeth, e.e. eleni bydd £300,000 ar gael i'w wario ar adnewyddu tai, yn ychwanegol at y cyfalaf i brynu tai.

Mae gan Tai Eryri ddiddordeb mawr mewn hen dai heb gyfleusterau o fath yn y byd, boed y tai yn wag neu gyda thenantiaid yn byw ynddynt. Does wahaniaeth o gwbl beth fydd eu hoed, - y tai ac nid y tenantiaid! Cofrestrwyd y Gymdeithas yn 1978 a dechreuwyd ar y gwaith o brynu tai. Digon swil fu'r Gymdeithas ar y dechrau gan gadw yn ardal Dyffryn Nantlle cyn mentro ychydig at Tai Beuno yn y Bontnewydd. Yn ara deg dyma fagu hyder a lledaenu gorwelion am Drefor, Caernarfon, Bethesda, Pwllheli ac ia, wrth gwrs, ardal yr Eco. Bellach gallwn ymfalchio (heb fod yn ddigwilydd, cofiwch) yn ein heiddo yn Arfon, Dwyfor ac Ynys Môn.


Dowch inni ganolbwyntio ar ardal yr Eco. 'Tydi'r ardal' ma yn lle mor ardderchog o braf i fyw ynddo, duwys annwl mi fuasai'n drueni inni beidio â chael eiddo yng nghalon Eryri! Mae gennym ddau le bach



Ffrynt y Tŷ — cyn ac wedyn
Y gwelliannau i Ddolafon, Waunfawr.



Cefn y Tŷ yn ystod yr atgyweirio ac wedi ei orffen.



dela 'rïoed, un ym Mrynrefail a'r llall yn Waunfawr (cawn sôn am Waunfawr yn nes ymlaen), dau dŷ arall yng Nghwm-y-glo gyda chryn waith i'w wneud arnynt - ond bod yr hen Mrs T yn rhwystro'r gwaith adnewyddu, wel am eleni beth bynnag! Tŷ arall ar y gweill yn Llanrug, ac efallai, pwy a ŵyr, un neu ddau yn Llanbêr a Nant Peris?

Rwan yn ôl at Dolafon, Waunfawr. Pan ddaeth y tŷ yma ar y farchnad yn 1982 roedd mewn cyflwr drwg, heb gyfleuster o fath yn y byd yno, ar wahân i'r 'Pandy' ym mhen draw'r ardd! Cytunwyd i'w brynu am £5,100 yn unol â'r prisiad a wnaed gan y Prisiwr Dosbarth. Nid yw'r swm yn fwy na phris car go dda erbyn heddiw! Dyma fynd ati i'w adnewyddu drwyddo draw. Gwnaed y gwaith ar gontract gan Meirion Williams Ysw., Carmel, a wir i chi, o'r diwedd, mae'r lle yn werth i'w weld. Mae yno stafell fyw nobl iawn, cegin gefn hwylus, dwy stafell wely a stafell ymolchi. Cofrestrwyd y tŷ gan y Swyddog Rhent Teg o Gaernarfon (a dweud y gwir rhaid i'r Gymdeithas gofrestru

Rhent Teg ar bob eiddo sy'n cael ei osod). Y rhent a benodwyd ar Dolafon yw £9 yr wythnos gyda'r trethi yn ychwanegol. Ystyriwyd nifer o geisiadau amdano gan Bwyllgor y Gymdeithas a phenderfynwyd ei gynnig i Mrs Megan Wyn Bound a'i dau blentyn Karen a David. 'Roedd hi'n byw mewn carafan ym Metws Garmon ers mis Chwefror 1981 ac mewn amgylchiadau dyrus iawn. Rydym yn falch o gael dweud fod ei thenantiaeth wedi dechrau er yr 11 Mehefin 1984.

Cyn cau pen y mwdwl hoffwn annog darllenwyr yr Eco i gysylltu â'r Gymdeithas os am fwy o fanylion ynglŷn â'r gwaith, neu os oes gennych eiddo addas ar werth, boed hwnnw yn wag neu gyda thenant ynddo. Cofiwch ffonio Penygroes 881588 neu alw i mewn. Cyn gorffen dyma ychydig o ystadegau i gnoi cil arnynt nhw:

Manylion ynglŷn â chostau Dolafon, Waunfawr:

Prynant	£5100
Adnewyddu	£11124
Ffioedd Pensaer	£1112
Cyfanswm	£17336

Tai a thenantiaid ynddynt:

Bontnewydd 14, Brynrefail 1, Caernarfon 7, Llanllyfni 3 (fflatiau), Nantlle 2, Penygroes 3, Trefor 22, Waunfawr 1, Y Fron 1. Cyfanswm 54.

Wedi eu prynu ond heb eu hadnewyddu (unedau):

Bontnewydd 1, Caernarfon 5, Llanllyfni 1, Penygroes 11, Trefor 5, Groeslon 5, Bangor 3, Cwm-y-glo 2, Llanaelhaearn 2, Bethesda 1, Garn 1, Pwllheli 10, Llanbedrog 3, Ynys Môn 12. Cyfanswm 62.

Gobeithir adnewyddu nifer yn ystod 1984-85, 20 uned yn Arfon, 10 yn Nwyfor a 4 ar Ynys Môn.

MERCHED Y WAWR YN Y SIOE GENEDLAETHOL

Hen Sir Gaernarfon oedd gwestai'r sioe eleni, ac yno yr oedd y mudiadau i gyd, pawb yn ei stondin a Merched y Wawr hefo nhw.

Trefnwyd dodrefn y stondin yng Nghanolfan Frondeg Pwllheli.

Bu cystadlaethau ar y testun 'Cadw dy afraid erbyn dy raid', yn gynt ar y tymor, yn y rhanbarthau. Y tair cangen a aeth i arddangos yn Llanelwedd oedd Penmachno dros Aberconwy, Bethesda dros Arfon, a Golan dros Dwyfor, ac fe ddaeth Aberconwy yn ail yn y genedlaethol.

Yn y stondin fawr, cywaith y tair rhanbarth oedd arddangos - Aberconwy yn dangos y gwahanol ffyrdd y mae'r mudiad yn ymhel â Chymorth i'r Anabl, Arfon yn dangos gwahanol agweddau ar Gymdeithasu, a Dwyfor yn dangos Crefftau celfydd yr aelodau.

Yr oedd yna ddoliau lliwgar o'r gwahanol wledydd tramor y bu Merched y Wawr yn ymweld â nhw yn ystod y blynyddoedd.

Hefyd yr oedd yna Lyfr Lluniau ar Ffilm yn dangos, ac yn dweud hanes sir Gaernarfon, hyn i ddiddori'r rhai a ddaeth am 'banad, mewn heddych yn y gongl chwaethus a drefnwyd ar eu cyfer, ac fe ddaeth yr ymwelwyr wrth y cannoedd.

Am y tro cyntaf, yr oedd Merched y Wawr yn swyddogol, yn Sioe Gogledd Cymru ym Methel. Dangoswyd eto 'Cadw dy afraid erbyn dy raid' Bethesda, a hefyd gwaith llaw cywain llawer o'r aelodau.

Pwyllgor Celf a Chrefft y sir fu'n gyfrifol am y cwbl o'r trefniadau.

M.V.J.

Am yswiriant ar gyfer eich car, tŷ, busnes, bywyd neu unrhyw angen arall cysylltwch â

Robin Jones a'i Gwmni

Ymgynghorwyr Yswiriant
a Morgeisi

Llys Alaw
18 Stad Eryri
Bethel

Ffôn
Y Felinheli 670140

Regent House
Y Sgwâr
Llanrwst

Ffôn
Llanrwst 641154

DEINIOLEN

C Gwasanaeth 24 awr -
A unrhyw bellter
B Eich rhedeg i'r Maes
S Awyr neu'r Porthladd
Bws Mini 12 Sedd

Ffôn: Llanberis
871591

J.M. WILLIAMS, 12 TAI FAENOL

DEINIOLEN

Gohebydd: W.O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen. (Ffôn: Llanberis 871259).

LLONGYFARCHIADAU: I Mr a Mrs Arthur Owen, 29 New Street, ar ddatlu eu priodas arian ar Awst 8.

MERCHED Y WAWR: Bydd tymor y gaeaf yn dechrau nos Lun Medi 17 yn y Ganolfan am yr amser newydd o chwarter i saith. Taer erfynnir am bresenoldeb yr oll o'r aelodau. Hefyd bydd croeso i unrhyw un ymaelodi o'r newydd. Tâl aelodaeth am y tymor fydd £3. Y gŵr gwadd i agor y tymor fydd Mr Arthur Rowlands, Caernarfon.

DIOLCHIADAU:

Dymuna Dewi a Sharon, 11 Rhes Faenol, ddiolch yn fawr iawn i'w teulu a'u ffrindiau am yr holl anrhegion, arian, cardiau a dymuniadau da ar achlysur eu priodas, Gorffennaf 7.

DIOLCH: Dymuna Alwyn a Valmai Williams, Hafle, ddiolch o galon i'w perthnasau a'u ffrindiau am yr anrhegion a'r arian a dderbyniodd eu merch, Gwawr, ar ei dewis yn 'Dywsog' gyda brenhines Carnifal Deiniolen. Diolch hefyd i Gloria, Yvonne ac aelodau pwyllgor brenhines y carnifal am bob cymorth.

Dymuna Mrs Enid Williams, 3 Rhes Faenol, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, blodau ac anrhegion tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref.

Dymuna Mr a Mrs D.M. Jones, 8 Bro Deiniol ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad ar golli merch annwyl iawn - Sally.

Carai Mrs Esther Ann Williams, Arfon House ddiolch o galon am y cydymdeimlad a'r cardiau a dderbyniwyd yn ei phrofedigaeth o golli ei thad ym Methesda.

Dymuna Mr David P. Williams, 1 Bron Helen, Clwt-y-bont ddiolch i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am y cardiau ac anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Arrow Parke yn ddiweddar, a hefyd ar ôl dod adref. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Miss Mair Rees Jones, Tan y Caerau, Clwt-y-bont ddiolch o galon i'w theulu, a ffrindiau am eu caredigrwydd am y llu cardiau, anrhegion, galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Dewi Sant Bangor. Diolch yn arbennig i'w gweinidog y Parch Ifor Williams, Bangor am ei ffyddlondeb, staff Swyddfa'r Dref Caernarfon, y meddygon a'r gweinyddesau Ward Gwynedd am eu gofal.

Dymuna Mrs Mary Thomas, 7 Vaynol Terrace ddiolch o galon i'w teulu, perthnasau a llu o ffrindiau am eu caredigrwydd ac am y llu anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd pan yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref. Hefyd diolch i'r meddygon am eu gofal.

Hoffai Eiriona Owen, 29 Stryd Newydd ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am anrhegion, cardiau a charedigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra'n cael triniaeth yn ysbyty Eryri Caernarfon. Hoffai ddiolch hefyd i'r meddygon a'r nysus, Eryri, am edrych ar ei hól mor ofalus.

Dymuna Mr a Mrs Arfonwy Jones, Pentre Helen ddiolch yn garedig i'r teulu a chymdogion oll am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd Mrs Jones tra yn Ysbyty Môn ac Arfon Bangor yn derbyn triniaeth lawfeddygol. Diolch hefyd i feddygon a gweinyddesau'r ysbyty.

Dymuna Mr a Mrs Gwyn Parri, Cynefin, ddiolch i ffrindiau a chyd-bentrefwyr am y caredigrwydd

mawr a'r ewyllyd da a ddangoswyd tuag atynt ar achlysur eu priodas.

Hoffai Cymdeithas yr Iaith Deiniolen ddiolch i bawb a gyfrannodd yn yr Ymgrych i Gasglu Bwyd at deuluoedd y glowyr yn ddiweddar.

Carai aelodau parti cyd-adrodd Ceris ddiolch o galon i staff y gegin ysgol Gwaengynfi, trigolion Deiniolen, Dinorwig a'r cylch am eu cefnogaeth tuag at wneud y noson goffi a gafwyd tuag at dreuliau'r parti i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanbedr Pont Steffan. Er na fu'r parti yn llwyddiannus y tro hwn, fe fydd yr ymarfer yn dechrau eto ym mis Medi yr un mor frwdfrydig at gystadlu yn eisteddfod Deiniolen ym mis Hydref. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Pwyllgor Brenhines y Carnifal ddiolch i bawb o blant ac athrawon Ysgolion Sul Deiniolen a Dinorwig, hefyd Seindorf arian Deiniolen, am eu cymorth yn y Cyngerdd Coroni.

Diolch hefyd i Mrs Elizabeth Snowden, Llywydd y Cyngerdd. Mr Robin Evans am y diolchiadau, Mr a Mrs Gwyn Parry, Olwen a Marina, swyddogion a gofaliwyd Capel Ebenezer.

Diolch yn arbennig i Mr John Evans, am gyfansoddi'r penillion isod. Diolch i bawb.

Penillion i Ddatlu Coroni Brenhines Carnifal Deiniolen 1984

**Holl drigolion bro Gwaengynfi,
Dowch yn lluoedd eto eleni,
I goroni ein brenhines,
Yn ôl defod bro a'i hanes;
Dowch yn llu, o bob tu,
I goroni Julie gu.**

**Mae yn haeddu ein cefnogaeth,
A phob arwydd o'n gwrogaeth,
Dysgu mae ein hoff arferion,
Iaith ein gwlad, ac iaith ein calon;
Rhown bob cymorth yn ei gorchwyl,
I weinyddu'n llon ac annwyl.**

**Arni'n gweini'n fwyn a llawen,
Mae benywod hoff Deiniolen,
Pawb â'u rhan yn hardd a heini,
Er mwyn llwyddiant y Coroni;
Hithau ein brenhines dirion,
Ar ei gorsedd dan ei choron.**

**Hardd yw Gwawr fel gwir dywsog,
Wrth yr orsedd mor fawreddog,
Dwy forwynig ar eu gora,
Sara Ann, a'r dlos Faria,
Anne Marie a Melanie,
Yn eu hafiaith eto 'leni.**

**Rhaid yw diolch i'r holl bwyllgor,
Hogiau'r Band a llawer rhagor,
Mor ddymunol yw'r cydweithio,
Yn Neiniolen unwaith eto;
Bendith arni Julie lawen,
Gwir frenhines yn Neiniolen.**

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y clinic pawns ddydd Mawrth, Mehefin 26. Y gŵr gwadd oedd un o blant Deiniolen, Mr Willie Iolen Hughes, cyn-brifathro Ysgol Rhiwlas, oedd wedi dod i roisgwrs ar 'Atgofion Bore Oes'. Estynnwyd croeso iddo ef a'i briod, Mrs Gwen Hughes, gan Mrs Megan Morris. Treuliwyd pawns hynod o ddifyr yn ei gwmni yn sôn am rai o wŷr a gwagedd y pentref ac hefyd hanes ail-adeiladu Berthen Gron. Estynnwyd croeso yn ôl hefyd i Mrs Mary Thomas, Tai'r Faenol ar ôl bod yn yr ysbyty. Rhoddwyd y te gan Mrs Grace Williams, Llysfryn, Mrs Mary Morris, 91 Pentre Helen, Mrs Nancy Thomas, 62 Pentre Helen, Mrs Jane Jones, Stryd Newydd. Enillwyd y raffl gan Mrs Maggie Morris, Tai Marian. Diolchwyd i Mr Hughes gan Mrs Megan Morris, a Mrs Jane Eirlys

Williams.

Yng y cyfarfod ar ddydd Mawrth Gorffennaf 10 mwynhawyd y pawns yng nghwmni Mrs Betty Wyn Davies yn dweud hanes ei gwyliau yn Paigton, Devon. Diolchwyd gan y llywydd. Dymuna'r aelodau gydnabod yn ddiolchgar i'r Doctor C. Marren, Miss Kathleen Jones, a Mr Thomas D. Hughes, am eu rhoddion i'r Clwb. Rhoddwyd y te gan Mrs Blodwen Parry, Mrs Enid Williams, Vaynol Terrace, Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen, Mrs Mary Hughes, Rhydfadog. Enillwyd y raffl gan Mrs Grace Williams, rhoddedig gan Mrs Nancy Rowlands. Gwnaed y trefniadau terfynol ynghylch y trip oedd yn mynd i Gricieth a Llandudno ar Orffennaf 19. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth Medi 11 yn y Clinig.



PRIODAS: Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Karen Allen, 16 Caradog Place a Graham Burke, 1 Albert Avenue, Fflint ar eu priodas yn Eglwys Llandinorwig ddydd Sadwrn, Awst 11. Byddant yn cartrefu yn 25 Cwm Sulyn, Hendre Park, Caernarfon.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Graham Burke ddiolch i'r teulu a'u ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar eu priodas.

LLONGYFARCHIADAU: i Sian Wyn Gibson, Hafod Olau a Rhian Owen o Lanberis ar ennill y wobrgyntaf ar y ddeuawd dan 21 yn Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pont Steffan.

PRIODAS: Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 28 cynhaliwyd priodas Mr Gwyn Parri, mab Mr a Mrs Tommy Arfon Parry, Bro Dawel, Deiniolen a Miss Annette Bryn Roberts, merch Mr a Mrs Evan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig. Cynhaliwyd y briodas yn Eglwys M.C. Dinorwig.

Gwasanaethwyd gan y Parch Trefor Lewis, a'r organyddes oedd Mrs Rhianon Gabrielson, LRAM, ARCM. Olwen Bryn a Marina Bryn,

chwiorydd y briodferch oedd y morynion, a Mr Irfon Price Morris, ffrind y priodfab, oedd y gwas. Yr hebrychwyr oedd Mr Alan Jones a Mr Gwynedd Morris.

Rhoddwyd pedolau i'r briodferch gan Idris, Elfed, Elen Wyn, Alaw Mari, Carwyn, Nicola, Owain Gwŵn, Anwen, Siân ac Emyr.

Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty Neuadd Henllys, Biwmares, ac roedd yno 97 o westeion.

Treuliwyd y mis mēl yn Vienna, Awstria. Bydd y cwpl yn byw yn Cynefin, Deiniolen.

Bydd y priodfab yn cychwyn ar ei waith fel Pennaeth Addysg Grefyddol yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy, ym mis Medi. Bydd y briodferch yn dychwelyd i Fanceinion i ddilyn cwrs Perfformydd Proffesiynol, yn y Coleg Cerdd.

Cyfansoddwyd y ddwy ymdeithgan gan Mrs Rhianon Gabrielson, ac yn ystod y cofrestru, canwyd 'Ave Verum' (Mozart) a 'Sanctus, Sanctus, Sanctus' (Schubert) gan Bedwarawd o Goleg Cerdd Manceinion.

Gwnaethpwyd y deisen briodas gan dad y priodfab.



MRS ANNETTE BRYN PARRI: Mae Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin, Deiniolen wedi bod yn brysur iawn yn ystod y misoedd diwethaf.

Cwblhaodd ei chwrs gradd yng Ngholeg Cerdd Manceinion ym mis Mehefin, gan ennill iddi ei hun radd GRNCM (dosbarth uchaf).

Ar wahân i berfformio a chyfeilio yma ac acw yng Nghymru a Lloegr, mae wedi cyfeilio ar bedair record yn ystod y tri mis diwethaf. Fe'i clywir ar dâp grŵp lleol, Lleisiau'r Gweunydd. Annettes yn cyfeilio i dri o'r artistiaid ar record 'Lleisiau Llanbedr' a ymddangosodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ond dwy record sydd wedi cael eu chwarae'n aml ar y radio yn ddiweddar yw eiddo'r mezzo-soprano Eirian James, a record o ddeuawdau Dafydd Edwards, y tenor, ac Ifan Lloyd, y



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

DEINIOLLEN (parhad)

baswr.

I gwblhau tymor prysur, enillodd Annette yr ail wobwr yn y gystadleuaeth chwarae piano yn Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pont Steffan.

Ar ôl seibiant byr, bydd yn dychwelyd i Goleg Cerdd Manceinion unwaith yr wythnos i ddilyn cwrs Perfformydd Proffesiynol (PPRNCM).

A'r dyfodol? Edrycha Annette ymlaen at gael cyfeilio ar record talentau ifanc Arfon, ac yn arbennig, at gael cyfeilio yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl y flwyddyn nesaf.

DEINIOL MAJORETTES: Bu'r tymor hwn yn llwyddiannus iawn i'r genethod, wedi cael amryw o wobrwon mewn gwahanol gystadlaethau. Yn gyntaf tair gwaith, ail wobrsaith o weithiau, a'r drydedd wobwr bump gwaith. Arweinydd gorau bedair gwaith a'r mascot gorau bedair gwaith. Mae dwy gystadleuaeth ar ôl ganddynt cyn diwedd y tymor. Dymunwn ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at y Majorettes.

Dyma ddarluno o uno'r pwyllgor yn mwynhau ei hail blentyndod ar lan y môr ym Mhrestatyn yn ystod yr haf.



Y SEINDORF: Llongyfarchiadau i Mr Gwyn Parri, BA, Brodawl ar ei briodas â Miss Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol Dinorwig. Mae Gwyn yn aelod o'r seindorf ac ef hefyd yw cadeirydd y pwyllgor.

BINGO - Cofiwch am y 'Bingo' bob nos Wener yng Nghwt y Band am 7.30 o'r gloch.

PRIODAS: Ddydd Sadwrn Awst 4 priodwyd Awen, merch Mr a Mrs Edward D. Hughes, 26 Pentre Helen, ag Arwel, mab y Parch a Mrs L.G. Roberts, Melangell, Lôn y Sgubor Wen, Caernarfon. Cyflwynwyd y briodferch mewn priodas gan ei thad. Gwasanaethwyd yng Nghapel Disgwylfa Deiniolen gan y Parch Trefor Lewis a'r Parch L.G. Roberts, tad y priodfab. Yr organydd oedd Mr Dewi O. Jones, Llangeftni. Y forwyn oedd Miss Alwena Thomas, ffrind y briodferch, y gwas priodas oedd Mr Emyr Wyn Thomas, a'r ystlyswyr oedd Mr Huw P. Hughes a Mr Alun Roberts a Rhys Roberts. Addurnwyd y capel gan Mrs Janice Land, Cae Hob.

Cynhaliwyd y wledd briodasol a disgo gyda'r nos yn y Royal Victoria Llanberis. Gwnaethpwyd y deisen gan fam y priodfab. Mae Awen yn athrawes yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy a'r priodfab yn brifathro yn ysgol gynradd Trelogan. Byddant yn ymgartrefu yn 9 Glan Ffyddion, Diserth, Clwyd.

DIOLCH: Dymuna Awen ac Arwel ddiolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da. Derbyniasant lu o anrhegion gwerthfawr ac arian, ac hefyd nifer fawr o gardiau.



PRIODAS: Dydd Sadwrn, Awst 4, yn Eglwys Llandinorwig, â'r Parch Aled Edwards yn gwasanaethu, priodwyd Steven, mab hynaf Mr a Mrs Alun Evans, 32 Stryd Newydd â Janice, merch Mr a Mrs Tom Williams, Ffordd Caernarfon, Bangor. Rhoddwyd y briodferch i'w gŵr gan ei thad a'r morynion oedd Monica, chwaer y priodfab ac Ann a Karen, chwiorydd y briodferch. Ygwas oedd Dilwyn Thorman Jones, ffrind Steven. Yr organyddes oedd Mrs Gwen Griffiths, Y Fron. Cynhaliwyd y wledd briodas yn Hafon Wyn, Benllech.

Treuliodd y pâr ifanc eu mis mēl yn Blackpool. Byddant yn gwneud eu cartref yn 413 Ffordd Caernarfon, Bangor.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Steven Evans, 413 Ffordd Caernarfon, Bangor ddiolch i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

PLAID CYMRU: Enillwyr Clwb Cant mis Gorffennaf oedd: £10: rhif 56, George Davies, 11 Ffordd Ysgubor Goch, Caernarfon. £8.50, rhif 101, Mrs Katie Griffiths, Arwelfa, Dinorwig.

AWST: £10, rhif 24, Miss Kathleen Jones, Prenteg. £8.50, rhif 81, Mrs M. Jones, 2 Bro Deiniol.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Orffennaf 2il dan

ofal y llywydd. Darllenwyd y llythyr misol a'r cofnodion. Croesawyd y wraig wadd sef Mrs Nancy Evans, Rhosgadfan a chawsom noson ddifyr iawn gyda Mrs Evans yn dangos i ni sut i wneud teganau meddal.

DIOLCH: i Mrs Evans gan Mrs Rita Parry Jones, y llywydd a Mrs H.J. Thomas. Enillwyd y raffl hefyd gan Mrs Jones, Y Becws.

Rhoddwyd y te gan Mrs Nancy Wyn Williams, 4 Tai Caradog a Mrs Beryl Hughes, 50 Rhydfadog.

Llongyfarchwyd Mrs Eirlys Lloyd Jones, 5 Cynfi Terrace ar fod yn nain unwaith eto.

Trefnwyd bod Mrs Gwen Hughes a Mrs Anna Williams yn cymryd gofal o'r stondin cacennau yn y Carnifal. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 3 pryd y bydd Mrs Treen, Caernarfon y V.C.O. yn siarad.

Y CARNIFAL: Cynhaliwyd y carnifal ar Gorffennaf 11-14, a bu'n llwyddiannus eto eleni.

Nos Fercher, Coroni'r Frenhines Julie, gan Frenhines Sharon 1983. Cymerwyd rhan yn y cyngerdd gan blant yr Ysgolion Sul, y Seindorf Arian lau gyda Mr H.G. Jones yn eu harwain. Iwan a Dylan: Annette Olwen a Marina. Yr arweinydd oedd Mr Gwyn Parri, a llywydd y noson oedd Mrs Elizabeth Snowdon (Porth y Gogledd gynt).

Nos lau - Gorymdaith gan y Majorettes drwy'r pentref i'r cae chwarae, yna'r Mabolgampau gyda Mr Alyn Evans yn M.C.

CANLYNIADAU 'R MABOLGAU:

Ras dan 4 oed: genod, 1. Carolyn, 2. Karen; bechgyn, 1. Richard, 2. Gethin, 3. Howyn. **Dan 6:** genod, 1. Bethan, 2. Lizza, 3. Siân Ellen; bechgyn, 1. Aaron, 2. Daniel, 3. Andrew. **Dan 8:** genod, 1. Icka, 2. Hayley, 3. Nia Land; bechgyn, 1. Gavin Saynor, 2. Simon, 3. Martin Ll. **Dan 10:** genod, 1. Karen Price, 2. Nichola, 3. Donna a Llio; bechgyn, 1. Emlyn, 2. Ian, 3. Neil. **Dan 12:** genod, 1. Julie, 2. Paula, 3. Dionne a Donna; bechgyn, 1. Gerallt, 2. Terry, 3. Dylan. **Dan 14 oed:** genod, 1. Ruth, 2. Lynda, 3. Jennifer; bechgyn, 1. Tegid Roberts, 2. Dylan Cole, 3. Dylan Jones. **Dan 16:** bechgyn, 1. Tony Maxwell, 2. Peter Allen, 3. Howyn. **Dros 16:** genod, 1. Carolyn Davies, 2. Lynda, 3. Menna; bechgyn, 1. Kevin Jones, 2. Haydn Maxwell, 3. Gary Williams. **Ras deircoes.** **Dan 8 oed:** 1. Siôn Wyn ac Andrew, 2. Gavin ac Emlyn. **Dan 11:** 1. Kevin a Paul, 2. Julie a Mandy, 3. June a Katie. **Dan 16:** genod, 1. Katie a Donna, 2. Dionne ac Eleri, 3. Jennifer a Sharon; 1. Karen a Beverly, 2. Ruth a Ceri, 3. Gwenda a Wendy; bechgyn, 1. Ieuan a Carwyn, 2. Tegid a Stephen, 3. Dewi a Tony. **Dros 16:** 1. Gari a Haydn, 2. Howyn a Peter Allen. **Ras Berfa:** **Dan 8:** 1. Donna a Hayley, 2. Bryn a Martion Ll., 3. Gavin a Simon. **Dan 11:** bechgyn, 1. Iolo a Gerallt, 2. Hevin a Tony, 3. Melvyn a Gwynant; genod, 1. Lynda a Katie, 2. Donna ac Anna, 3. Mandy a Julie. **Dan 16:** bechgyn, 1. Tegid ac Eilir, 2. Iolo a Geraint, 3. Paul a Tony; genod, 1. Lynda a Paula, 2. Sarah ac Anita, 3. Travey a Donna; Ceri a Ruth. **Ras Traws Gwlad:** **Dan 12:** 1. Dylan Cole, 2.

Paul Hughes, 3. Iolo Griffith. **Dan 16:** 1. Kevin Jones, 2. Peter Allen; genod, 1. Julie Cyster a Lynda Fleming.

Nos Wener - Disgo i'r plant a Bingo i'r oedolion. Enillydd y raffl oedd Mrs Glenys Bingham.

Dydd Sadwrn - Diwrnod y Carnifal gyda'r orymdaith yn cychwyn o Rydfadog â Seindorf Arian Deiniolen, Majorettes, Brenhines Julie a'i gosgordd a'r breninesau gwadd a'r gwisgoedd ffansi. Agorwyd y Carnifal gan Mrs Maud Williams, Caernarfon (cyn-athrawes Ysgol Gwaun Gynfi). Beirniadwyd y gwisgoedd ffansi gan Mrs Williams, Mr a Mrs Kelvin Fleming, Porthaethwy a Mr a Mrs Gwyndaf Jones, Llanrug. Yr M.C. oedd Mr Myfyr Parry.

Enillwyr y Wisg Ffansi:

Dan 4: 1. Owain Gwyn, 2. Gethin Williams, 3. Siôn Charles Thomas a Gwenan Haf. **Hysbysebiad gorau:** 1. Alaw Mari Hughes. **Dan 8:** 1. Michael Thomas, 2. Siân Ellen Thomas, 3. Dafydd Gwynedd. **Hysbysiad:** 1. Carwyn Jones, 2. Euros Wyn Williams, 3. Aaron Jones. **Dan 12:** 1. Sioned Evans a Nicola Taylor, 2. Derwyn Jones, 3. Amelia Jones. **Hysbyseb:** 1. Marc a Barry John, 2. Eilir Wyn Williams, 3. Cemlyn Jones. **Dan 16:** 1. Kluk Klan, 2. Beverley Thomas a Karen Hughes, 3. Laura Grant a Karen. **Hysbysebu:** 1. Alyn Evans. **Pâr gorau dan 10 oed:** 1. Alaw Mari ac Eilir W. Williams. **Dan 16:** 1. Sharon Lambers a Sylvia Owen, 2. Iwan Williams a Iolo Griffith, 3. Sharon Wyn a Della Jones. **Beic wedi ei addurno:** 1. Ceri Wyn Williams. **Tebygrwydd mam a merch:** Valmai a Gwawr, Dilys a Cheryl. **Nain Harddaf:** 1. Mrs Nellie Hughes, Erw Fair. **Brenhines Wadd Orau:** 1. Brenhines Shelley, Pwllheli. **Grŵp gorau:** **Dan 10:** 1. Codi pwysau. **Dan 16:** 'Last of the Summer Wine'. **Dros 16:** 1. 'Heno, heno, hen blant mawr', 2. 'Bull and Wellington Maids'.

Cyflwynwyd cwpan er cof am Cledwyn Jones gan Ivonne, am y cymeriad unigol gorau o'r enillwyr uchod i Owain Gwyn.

Enillwyr y raffl:

Mr J.A. Roberts, Bron Fedw, Gallt y Foel (£50); Mark, 2 Helen Villa (£25); P.M. Collins, 3 Maes Gwylfa (£15); Harold Jones, 6 Glan Peris, Caernarfon; R. Evans, 84 Pentre Helen; O. Griffith, Hen Felin, Aber; S. Woodcock, 2 Maes Gwylfa; Gwynedd Jones, Deiniolen; Reg ac Anna, Bristol House; Malcolm Davies, 9 Hafod Olau; Alwyn Williams, Hafle; Manon Parry, Gerlan; Hefin Jones, Bryn Haul, Groeslon; Anna, 77 Pentre Helen; L. Jones, 20 Pentre Helen; Dylan Edwin, Meillionydd, Penisarwaun; 3307 Penrhyn Quarry; Mrs Ivy Williams, Bodawen, High Street; Janice Land, Cae Hob, Llanddeinioleb; Mrs Myfi Jones (Pen-blwydd y clown - Ebrill 1af).

Dymuna Pwyllgor y carnifal ddiolch yn fawr iawn i swyddogion capel Ebenezer ac i drigolion y pentref am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth unwaith eto.

DIOLCH: Dymuna Eryl a John Hughes, 11 Field Terrace, Goodman Street (Deiniolen gynt) ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Michelle Ann.



'Does ryfedd fod yr Hen Ddyn Budur wedi ei weld yng nghyffiniau Penisarwaun yn ystod yr haf!

CREFFT·ELIDIR

STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis **871210**

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol. **Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

Ar agor 9.30 am - 9.30 pm

Galwch i weld Gwil wrth ei waith ym Mharc Padarn, Llanberis

CYNNYRCH 'TALWRN Y BEIRDD' – TÎM

ROWND GYN-DERFYNOL – YN ERBYN TÎM CRANNOG

LIMRIG: Sgwrs ar y ffôn
(Mam yn ateb galwad ei mab)

'Rwy'ti bellach yn briod ers dyddiad
A rhaid 'ti wynebu'r sefyllfa –
Paid â galw bob munud
Mae hiraethu mor ynfyd –
Dwyt ti ond wedi symud drws nesa!

CWPLED CAETH GYDA'R ODLAU:
Tân - Arian

Wedi'r daith, a'r byd ar dân,
Hwyrach ga'i delyn arian.

PENNILL DYCHAN: Gwydr Dwbl

Os daw fy nghariad i yma heno
I guro'r gwydr glas
Chlywa' i 'moni.

CYWYDD (Dim mwy na 12 llinell)

Newyn

Heno 'does ond anhunedd
A gwŷr Biaffraidd eu gwedd
Yn ein bro'n rhyw bigo byw
Haen eilradd o ddynolryw.

Plant yn artaith eu chwantau
Yn fil ar fil o gnofâu
A'r crymu a'r chwydu chwil
Yn nodwyddo'u cnawd eiddil.

Na hidiwch ffeuen heno
Am ffawd eich brawd – yn eich bro
Mae eigion o ddigonedd
A gwŷr porthiannus eu gwedd.

PENNILL TELYN YN CYNNWYS Y
GAIR: Trefn

Dweud y drefn a wnaeth f'anwyl
'Mod i'n horwth mawr di-symud-
Dyna gyfle roddodd imi –
Symud wnes oddi wrthi.

ENGLYN BEDDARGRAFF YSGAFN –
Gôl-geidwad

Ein harbedwr arwrol – o'i gladdu
Drosglwyddwyd yn ddeifiol
Seraff, ond anamserol,
Mai 'r ail, ag un gêm ar ôl.

CÂN (Dim mwy na 30 llinell): Codi
'Sgwarnog

Bu'r Cyngor yn eistedd am ddwyawr
a mwy
I drafod problemau dyrys y plwy;
Am unwaith, di-ddadl fu popeth o'u
blaen
A setlo pob mater, a symud ymlaen –
A'r Clerc yn gweld gobaith am beint
yn "Y Bedol"
Ond cododd Cynghorydd di-sylw o'i
gongol:

"Un mater bach arall, os gwelwch

chi'n dda;
Mae cwningod yr ardal wedi mynd
yn bla
Yn "allotments" y Cyngor ar waelod
y stryd,
A'r garddwyr yn cwyno o hyd ac o
hyd

Poeni rydw i am y difrod i'r cabait
– Rhai brawd y wraig – Cadwaladr
Robaits;
Nid fod perthyn i mi o unrhyw fantas
'Dydi'r wraig 'cw ei hun ond yn
perthyn trwy briodas
– A sôn am briodasa', fe ddylem roi
stop
Ar luchio confetti rhwng y capel a'r
siop,
A'r Cyngor 'di gwario cymaint 'leni
I gael biniau sbwriel mewn llefydd
mor handi

A rhaid dwys-ystyried ein gwariant
cynyddol
Mewn grantiau i bethau fel 'steddfod
flynyddol
– Rydwi'n hoff iawn o ganu, fel
gwyddoch i gyd
Ond pocedi trethdalwyr sy'n dioddef
o hyd

A dyna i chi'r pres aeth i'r papur bro
– 'Does neb o'r Saeson yn ei ddeall o:
Fel yna 'rydwi'n teimlo Mistar
Cadeirydd
Ynglŷn â'r cwningod sydd ar
gynydd."

Diolchodd y Clerc am sylwadau
cynnil
Ac i bawb arall am ymddwyn mor
sifil;
Addawodd roi sylw i'r holl gwningod
– A dilyn trywydd ambell sgwarnog!

ENGLYN CYWAITH: Drws

Dros riniog drws yr uniad – yr
aethant
Ar drothwy eu cariad,
Ond ers talm mor dôr eu stad
Yn drothwy eu dadrithiad.

"Merchetwr"

Mae 'nghariad i'n fenws, neu'n
fingoch, neu'n fain,
Mae 'nghariad i'n eurwallt, yn bob un
o'r rhain,
Yn gariadlon i mi, yn addoli fy llun,
Yn credu'n eu calon mai HWY yw YR
UN.
Morfudd sy'n gynnes, tra Dyddgu yn
glên,
Mae Lucy mor rhywiol, a Harriet yn
hen
Gariad o hogan.
Eu braint yw fy nghwmni a'm calon
dros-dro,
Fy hawl yw eu caru, a'u gyrru o'u co'



Tim Llanrug a thîm Mynydd Parys gyda'r meyrn – Gerallt Lloyd Owen, ar
ddiwedd yr ornest derfynol ym Mhlas Tan Dinas, Dinas Dinlle. Tîm Mynydd
Parys a orfu.

A'u gadael. Cans gartre mae Maude,
Hyhi, welwch chi yw'r ffyddlonaf
sy'n bod,
Yn uchel ei chloch, yn isel ei bron –
Duw a'm gwaredi, nid oes dianc rhag
hon.

CYWAITH RHYDD – TELYN 2
BENNILL

Cysgod (ym Mharc Padarn,
Llanberis)

A fuoch chi 'rioed yn nawns Glanmai
Alltwn
Wrth i'r dilliau bendoncian drwy'r dail
uwchben,
Rhubanau goleuni yn euro'r disco
Rhwng cangau'r coed, yn hyfryd
afrosgo,
A hudlathau'r strôb ar fwsog o lawr
Yn pylu'r côf am y gloddfa fawr?

A fuoch gerllaw yn Ysbyty'r Chwarel,
Lle bu Dinorwig yn chwydu rwbwl
Y stretchar gwiall, a'i llwyd
ysgythredd
Yn crino dynion fel dail y llynedd?
Byred y cam at glwt y cwést,
I holli'r cysgod ar y frest.

BETWS GARMON

CYDYMDEIMLAD: Ein
cydymdeimlad â Mrs Brenda Jones,
Cynefin a'r teulu oll yn eu
profedigaeth o golli chwaer – Mrs
Sally Elizabeth Williams,
Caernarfon (Crawia, Llanrug gynt).

DIOLCH: Dymuna Brenda a'r teulu
ddiolch am bob arwydd o
gydymdeimlad yn ei galar.

LLONGYFARCHIADAU: i David
Edward Williams, Parc, ar ei
lwyddiant yn yr arholiadau lefel 'O'.

ROWND DERFYNOL – yn erbyn Mynydd Parys

Limrig yn ymwneud â'r Eisteddfod
(Twrog Elis Jones)

Mae "Dwy Goron Llanbed" 'di achosi
Rhyw gryndod neu ddau'n y sylfeini;
Ond gwêl rhai'r Eisteddfod
Yn wynebu'r annorod
A chydabod bod cywaith eleni.

Cwpled caeth gyda'r odlau: profiad -
rhad.

Yn oes grant ac addysg råd,
Prifiodd yn ysgol profiad.

Pennill Ymson wrth fedd
mam-yng-nghyfraith

'Rwy'n cael fy nhemtio i ddweud y
gwir,
Yn glir, heb ymddiheuro
Ond mae dy ferch 'r un brid o gyw,
A rhaid 'mi fyw 'da honno.

Cywydd (dim mwy na 12 llinell): Ofn

Byw di wên yw'm byw penwan
Dan fantell o gell. Corff gwan
Wedi'i rwygo â drygiau
Barrau heyrn am esgyrn brau.
Mae pob gwyn yn wynias
Dyn, a daw sgytiad o ias
Fel llafn procer yn serio
Pellafoedd celloedd y co'.
Ym mynwent fy ymennydd
Melltigedig ddiefflig ddydd
A heldrin y llawdriniaeth
Sy'n geni loes (sy'n) ganmil gwaeth.

Triban: Tri pheth nad doeth eu
d'wedyd
Tri pheth nad doeth eu d'wedyd

SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

LLANBERIS 871354

M. ROWLANDS

MONUMENTAL MASONS

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic
gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

LLANRUG

Yw "gwnaf" wrth ferch uchelfryd,
Wrth hen ferchetau "fallai gwnaf",
A "na wna" wrth f'anwylid.

Englyn Cywaith: Rhyfeddod

Â rhodres rhai a edrydd – am ei weld
Ymhell dros lwydd,
Minnau'n cofio Uwchmynydd
A'i fôr ar dân wrth farw'r dydd.

Cân (dim mwy na 30 llinell):
Pwysigion

Chwi wyddoch yn iawn am y teulu,
gyfeillion:
Y bobl sy'n credu eu bod NHW'N
bwysigion;
Yn frid anhepgorol ym mhob rhan o'r
wlad
A'r cyfan er chwyddo eu
hunan-leshad.

Y GŴR – gadd ei ethol ar y Cyngor
Bro
(Doedd neb yn sefyll ond y fo.)
Cynigiodd ei hun ar Bwyllgor y
'Steddod
Er mwyn i'r Beirniad gael ei 'nabod:
Trefnodd Wyl Haf i gyd wrtho'i
hunan
Neu o leiaf, dyna'r argraff a gafodd
pob un.

Priododd mewn steil â merch y
gweinidog
(Roedd 'na si ar led fod ei mam yn
ariannog)
A chartrefodd y ddau yn "Nhrem yr
Wyddfa"
Nes ei ail-fedyddio yn "Snowdon
Vista".

Y WRAIG – a ddarganfu ei bod hi yn
feichiog
Yn sydyn; rôl priodi – ia, biti
gyndeiriog.
'Mhen seithmis fe aned mewn 'sbyty
preifat
"Premature twins" – a dyna'i chi
reiat.
Ac wedi trafferthion y geni cynnar
Cafwyd 'nanny' o safon i'r ddau
aflafar.

A gwahoddwyd Y Wraig i lywyddu
Cymdeithas
I drafod problemau Efeiliaid mewn
Priodas;
Cyn bo hir 'roedd hi'n Wir
Anrhydeddus Lywyddes
Pob math o fudiadau – 'run fath â'r
frenhines.

Y PLANT – sydd i fod i ennill pob peth
Mae'r rhieni'n rhy bwysig i fod yn
ddi-feth;
A'r plant a gaiff frolio fod "mami a
dadi ni
Yn cael mynd i'r Palas i gael O.B.E."

Fe wyddom yn iawn am y teulu
gyfeillion
Ond wrth gwrs, dydym ni ddim 'run
fath â'n cymdogaion.

Hir-a-thoddaid: Hen olion

Mae tyrrau o wast yng nghwm y
tristwch
Lle bu'r crefftwaith, mae yno
ddiffeithwch
Hydrefau a'i rŵd gyda'r hyfrydwch
Ar lethrau dirgel. Yn awr tawelwch
lasoer ac ambell beswch – henwr
brau,
Angau'r hydrefau sy'n ei arafwch.

Dau bennill telyn: Hen ac ifanc

Cofio bod yn nyddiau plentyn,
Methu tyfu'n ddigon sydyn,
Blwydd i flwydd yn llusgo'n ara' –
Minnau'n dal mewn trowsus cwta.

Llawer blwyddyn fu ers hynny,
Gwibio maent a minnau'n 'rafu,
Byr fy ngwynt a byr fy nghamra,

O na bawn mewn trowsus cwta.

Englyn beddargraff: Cynganeddwr

Ddoe rhadlon nyddwr awdla' – o
druan,
Wele'i drawiad ola';
Mae'n ei wrn – fel cildwrn da,
l'w wynos, aeth jest fel'na.

Cywaith rhydd – telyneg 2 bennill:
Canrif

'Rwy'n cyfrif cant o gylchoedd,
Fel record, ar dy fôn,
Pob un yn adlais blwydd o dwf –
Ar hyd rhigolau'r dôn
Mae nodwydd fy nychymyg
Yn troi a throï tua'th grud,
Gan wrando hynt a helynt
Y gornel hon o fyd.

Mae'r gân am dair cenhedlaeth,
Dagrau ac ambell wên,
Cusanu a rhyfela,
Epilio a mynd yn hen,
A dod o'r dyddiau caled
Esmwythach ffordd yn awr;
Ond goeden hardd, i ledur lôn,
Fe'th lifiwyd di i lawr.

DIFFYG CEISIADAU AM SWYDDI

Ddechrau mis Gorffennaf
derbyniodd Pwyllgor Rheoli'r
Ganolfan Genedlaethol Addysg
Grefyddol adroddiad y Trefnydd,
Rheinallt Thomas, am waith y
tymor.

Dangoswyd bod grant o
£119,833 wedi ei dderbyn gan
C.G.G. i gyflogi 29 o bersonau ar
Gynlluniau Cymunedol.
Adroddwyd bod Cynllun Unedau
Dysgu Dwyieithog, yn cyflogi 10
person, wedi cychwyn ar Orffennaf
2 ond oherwydd diffyg ceisiadau,
gohiriwyd cychwyn y cynllun arall
hyd ddechrau Medi.

Dywedodd y Trefnydd bod diffyg
affwysol o geisiadau gan Gymry
Cymraeg, a bod rheini yn hanfodol i
ran o'r cynllun. Bwriedir ail
hysbysebu gan obeithio y bydd
athrawon neu raddedigion a allai
gyfaddasu deunydd clywedol i'r
Gymraeg yn ymgeisio. Mae eisiau
hefyd rhywun fel Llyfrgellydd, fel
Technegydd ac un i weithio a
rhaglennu cyfrifiadu. Mae rheolau
diweithdra Cynlluniau Cymunedol
yn berthnasol a dylai unrhyw un
sy'n cyfarfod â'r gofynion erbyn
Medi 3ydd yrru eu ceisiadau yn syth
trwy Professional and Executive

GWASANAETH
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



BETHEL

Gohebydd: Geraint Ellis, Cilgeran
(Portdinorwig 670726)

MARW: Dydd Mawrth, Awst 13 wedi
gwaeldd hir bu farw Mrs Joan
Foulkes, 6 Tan y Cae, gynt o Tyddyn
Gwndwn, yn 56 mlwydd oed. Roedd
yr angladd, preifat yn y cartref a
chyhoeddus ym mynwent
Llanddeiniolen, ddydd Gwener.
Dymuna ei phriod Jack a'r plant
ddiolch o galon i'w perthnasau,
cymdogaion a ffrindiau am y llu
cardiau a llythyrau a dderbyniasant a
hefyd am y rhoddion ariannol tuag at
ymchwil meddygol sydd dros £300 ar
hyn o bryd.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs
Roberts, Gwynfryn ar enedigaeth eu
mab Aled ar Orffennaf 2il; a hefyd i
Mr a Mrs Gwynfor Ellis, Stad Eryri ar
enedigaeth mab, lolo Gwyn, ar Awst
6. Llongyfarchiadau hefyd i Mr a Mrs
Hughes, Glyn Trefor ar enedigaeth
eu merch, Enlli Haf.

CYDYMDEIMLO: Yn ystod y mis bu
farw Mrs Williams, 11 Cremlyn, Tŷ'r
Eglwys gynt, a hefyd Mr Alfie Jones,
yn Awstralia. Estynnwn ein
cydymdeimlad llwyr â'r teuluoedd
yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU: i Shân a Ceri
Evans, Blaen Parc ar gyrraedd eu
deunaw oed ar Awst 16, a hefyd i
Paul Humphreys, Is Helen a oedd yn
dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw ar
Awst 6. Dymuniadau gorau hefyd i
Alan Williams, Cefn fydd yn dathlu ei
ben-blwydd ar Fedi 11.

Recruitment, Halkyn House,
Rhosddu Road, Wrecsam, Clwyd.
Dywedodd y Trefnydd ei fod yn
synnu bod diffyg ymgeiswyr o
gofio'r sefyllfa diweithdra lleol.

G. JORDAN CEFN ELAN LLANRUG

I fenthyg
cymysgwyr
concrit, cludo
llwythi ysgafn,
clirio safleoedd a
sbwriel ac am
dywod, gro, brics
ynghyd â gwaith
trydanol fel o'r
blaen

Ffoniwch:
CAERNARFON
3581

DYMUNIADAU GORAU: i holl blant y
pentref fydd yn dechrau ar yrfa
newydd yn yr ysgol, coleg neu waith
ym mis Medi a llongyfarchiadau
calonnog i bawb fu'n llwyddiannus
yn eu harholiadau yn ystod yr haf.

LLONGYFARCHIADAU: i Gail,
Sharon a Jennifer ar eu llwyddiant
mewn amryw garnifal yn ystod yr
haf. Cawsant wobrau yng
Nghaernarfon a Llaingoch.

FFAIR HYDREF: Nos Wener, Medi 28
cynhelir Ffair Hydref yn y Neuadd i
godi arian at welliannau i'r Neuadd.
Yn y Ffair tynnir y raffl sydd yn cael ei
gwerthu ar hyn o bryd.

MERCHED Y WAWR: Bydd y tymor
newydd yn dechrau nos Fercher,
Medi 5 gyda thaith gerdded
noddedig. Estynnir gwahoddiad
cynnes i aelodau hen a newydd.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr
Diamond, Rhos Lan am gael gwobr
yn Eisteddfod Genedlaethol Llanbed
am ddysgu Cymraeg.



Brenhines Gail, Sharon a Jennifer
yng Ngharnifal Caernarfon.



Breninesau a gosgordd 1983 a 1984
ar lwyfan y carnifal eleni.



Bethan, Manon a Ruth wedi gwisgo
fel cymeriadau o'r gyfres deledu
Coronation Street yn y Carnifal.

NORMAN JONES

4 Tai Disgwylfa
LLANRUG

Ffôn:

CAERNARFON 3476

GLANHAWR FFENESTRI

* Siopau * Tai *

* Swyddfeydd *

Gwestai * Ffatrioedd

Yswiriant Llawn

Hefyd peintio – tu fewn a
thu allan

ELIFFANTOD CO-OPARET

atgofion
Goronwy Owen

"Hello bach, tyrd i mewn. Isio talu wyt ti?"

"Ia plis."

Cerddais i mewn i'r offis, a rhoddais lyfr Coop Mam i Robert Davies. Cymerodd y papur chweugain oedd rhwng tudalennau'r llyfryn, a'i gofnodi. Safwn innau yn y cyfamser yn mwynhau'r ogledd a'r wber oedd yn llenwi'r llofft lle gwerthai Miss Thomas sgidiau a dillad, tra deuai swm lleisiau merched o'r grisiau oedd yn arwain i fyny.

"Dyna ti. Diolch."

"Thanciw."

"Wyt ti wedi cael un o'r llunia 'ma i'w lliwio?"

"Nagydw."

"Dyma ti. Llun dyn yn saethu eliffantod yn Affrica. Oes crayons gen ti?"

"Oes."

"Wel lliwia fo ag anfon o i Manchester. Falla y cei di breis - £3 i'r cynta, £2 i'r ail a deg gwobr o bum swllt i'r rhai sy'n drydydd. Dyna ti. Cer â'r llyfr adra yn syth i dy fam."

"Ol reit."

"Diolch. Nesa'."

Roedden ni blant yn hen gyfarwydd â rhedeg nôl a 'mleai i wneud neges amser cinio, ar ôl ysgol neu cyn i'r siopau gau gyda'r nos. Awr ginio oedd yr amser gwaetha'. Roedd rhaid brysio pryd hynny oherwydd prinder yr amser. Er y byddai'r siop bron yn wag o gwsmeriaid, dim ond un, Miss Jones fel arfer, fyddai yno i weini arnynt. Anaml y gofynnai mam i mi fynd pryd hynny, ond byddai rhaid weithia. Ambell i dro ar y ffordd i lawr, byddwn yn dal un ddynas arbennig i fyny, ac yn mynd heibio iddi a'm gwynt yn fy nwrn. Amser cinio oedd ei hamser gwneud negas hi. Llauer i dro y cyrhaeddais y siop o'i blaen, aros fy nhwrn ddim ond i'w gweld hi yn fwyaf haerllug yn rhoi ei negas i Miss Jones o fy mlaen, ac yn tin droi yn bwrpasol er mwyn fy nal i ac unrhyw blentyn arall a ddigwyddai fod yno, gan wybod y byddem yn hwyr yn ail gyrraedd yr ysgol. Safwn yno, ofn deud gair, tra byddai hi yn cymryd ei hamser. Dynas fawr o gorff ond bach o enaid. Doedd dim llawer o'i theip hi o gwmpas, diolch byth.

"Ble wyt ti wedi bod mor hir?" mam yn gofyn, wedi i mi gyrraedd y tŷ.

"Mrs - - gymerodd fy nhwrn i."

"O dratia hi, yr hen gnawas iddi. Hitia befo. Ynda, byta hon yn dy law," a rhoddai glamp o frechdan imi, a'm hanfon am yr ysgol.

Ond roedd plant y lle yn ffrindia hefo pob un o'r gweithwyr, Edwards hefo'i legins a'i alsatian, John a'i wên bryfoclyd, a Miss Jones, hi'n enwedig, merch fychan chwim a siaradus. Deuai o'r tu ôl i'r cownter. "Agor dy geg."

Safwn yno a'm ceg yn agored fel sgodyn.

"Agor hi'n fwy."

Ceisiwn ufuddhau, gan wybod y byddai rhywbeth blasus yn cael ei wthio i mewn; darn o fised oedd wedi torri yn un o'r tuniau, prŵn galed ddu o'r bocs pren a bwysai yn 8



erbyn y cownter, neu bisin bach o gaws o'r cosyn anferth a eisteddai ar ben y cownter yn ei fyslin fel rhyw briodferch dew, dew.

Gyda'r nos, yn enwedig nos Wener, byddai'r lle yn orlawn o famau a phlant, yn siarad a cherdded o un cownter i'r llall. Pwys o'r peth yma a hanner o'r llall. Potel o flac led neu floc o 'zebra', dwsin o ganhwyllau, owns o bupur, hanner pwys o fisedi ac owns o Faco Amlwch, tun triog, dau bwys o flawd, gwerth dwy o finigr, rwdan geiniog, bocs o bŷs, pwys a hanner o siwgr ac indan corn i'r ieir. Roedd mynd yno ar noson brysur yn rhywbeth cymdeithasol, ddiddorol, a'r daith adra hefo basgedi llawn, trymion i fyny Stryd yr Wyddfa yn un araf. Yr un pryd, byddai merched Blaenddol a'r Bing yn cario dwy fased lawn a'u gadael tu fewn i ffens y gof golofn, lle byddent yn eithaf saff, tra dychwelent hwy yn ôl i'r siop i gyrchu dwy arall. Os gwn i fyddai basged o nwyddau heddiw yn cael yr un parch?

Dydd Iau oedd diwrnod menynd. Wedi brwsio'r lorri lo, âi Edwards a John Huws i'r farchnad i Langefni, a dychwelyd hefo blychau pren yn llawn o fenyn, pob pwys a stamp y fferm arno, ac wedi'i lapio mewn

papur gwyn. Gosodent rhain ar lawr yr ystafell gefn, ac âi'r merched yno i ddewis a phrofi. Ydych chi'n cofio'r ddefod? Ffafiai pawb rhyw fferm neu ddwy. Wedi agor y papur i ddangos ochr y menynd, cymerai'r prynwr ronyn ar ewin ei bys bach, i weld pa mor hallt neu royw ydoedd, oherwydd amrywiaethai pob fferm o wythnos i wythnos. Ni allaf gofio ai'r law chwith neu'r dde a arferid - ydych chi'n cofio? Ond cofiaf yn iawn pa mor flasus oedd y menynd ar fara ffres mam, neu hefo tatws newydd. Dyna un scam na chaf fi mo'i blas byth eto.

"Mam."

"Bydd ddistaw."

"Mam."

"Bydd ddistaw, mi ydw i'n siarad hefo Miss Jones."

"Ond mam."

"Byhafia dy hun. Bobol mawr, ble mae Edwards yn mynd a John?"

Daeth Julia fy chwaer i'r adwy. "Mae John wedi torri'i fys i ffwrdd."

Cerddais i yn ôl i syllu ar y rhyfeddod newydd oedd wedi disodli'r gyllell a'r hogwr, ac oedd nawr yn llawer mwy o ryfeddod, oherwydd fod bys bach John yn gorwedd arni fel rhyw bensil fach binc. Doedd erchylltra'r digwyddiad ddim wedi fy nharo, er i

mi weld y cyfan.

Gwylais John yn gosod hanner ochr o gig moch ar yr injan sleisio becyn, yn troi'r olwyn finio unwaith neu ddwy i dorri rhyw ddau ddarn o gig, ac yna yn ddamweiniol yn torri ei fys bach i ffwrdd.

Tra roedd Edwards yn mynd â fo trosodd i siop Huws Drygist i bwytho'r clwy, gafaelodd Miss Jones yn y bys hefo papur gwyn, a'i gario'n barchus i'r ystafell gefn. Welais i erioed mo Miss Jones yn cyffwrdd y peiriant newydd ar ôl hynny. Y gyllell ddefnyddia hi bob tro i dorri bacyn.

Fel trysorydd Pwyllgor y Coop, byddai fy nhad yn mynd yno ambell i gyda'r nos hefo Robert Davies i archwilio'r llyfrau. Ar ôl cwblhau'r gwaith, yn nistawrwydd yr hwyr, byddai'r ddau yn mynd i'r ystafell gefn. Hefo coes brws llawr, pwniai fy nhad tu ôl i'r sachau blawd a'r bwyd ieir oedd wedi'u gosod yn erbyn y walia. Yr ochor arall, gyda darn bach o bren, rhoddai Mr Davies slap bach ar ben bob llygoden fawr a redai allan o'u cuddfan. Doedd hanner dwsin yn ddim byd allan o'r cyffredin. Mi ydw i'n mynd yn ôl drigain mlynedd, ac mi roedd y sbort yma yn llawer mwy buddiol na saethu eliffantod yn Affrica.

I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

**Osmond
W. Shaw**

DEINIOLEN

Ffôn:
LLANBERIS 870545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

**YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 glanffynnon
LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwd
DEINIOLEN

Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)



Mrs Eirwen Williams, 1 Bryn Gro sydd wedi ymddeol ar ôl 25 mlynedd fel gofalfwraig yn Ysgol Brynrefail.

DIOLCH: Dymuna Mrs Eirwen Williams, 1 Bryn Gro ddiolch o galon i'r prifathro a staff Ysgol Brynrefail, hefyd i'r gofalfwr a'i chydweithwyr am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd wrth ymddeol o'r ysgol.

GAIR O DDIOLCH: Dymunaf ddiolch o galon i bawb o'r ardal am eu caredigrwydd mawr tuag ataf yn y ddamwain a gefais yn ddiweddar. Gwerthfawrogaf y cyfan yn fawr iawn - W.O. Roberts.

MARW: Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Sally Elizabeth Williams gynt o Ffordd Crawia Llanrug. Ein cydymdeimlad â'i phriod Mr Bleddyn Williams a'i merch Delyth, ac hefyd â'i mam, Mrs D.M. Jones, 8 Bro Deiniol Deiniolen ac â'i brodyr a'i chwiorydd - Billy, Brenda, Marion a Brian.

Mewn ysbyty bu farw Mr Bob Pritchard, Gwynfa, Llanrug. Ein cydymdeimlad dwys â'i unig ferch, Mrs Rose Ann Hughes a'i wyres Helen a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

CLWB BLODAU'R GRUG: Cynhelir cyfarfod yn y Sefydliad Goffa am 2 o'r gloch ddydd Mercher, Medi 19.

PRIODAS: Ar Awst 4 yn y Capel Mawr Llanrug, priodwyd Elfed Lloyd Roberts, mab Mr a Mrs H.M. Roberts, Pedwar Gwynt, y Bontnewydd â Gwenda Jones, merch Mr a Mrs O.A. Jones, Wern, Llanrug. Gweinyddwyd gan y Parchedig John Morris, B.D. a W.O. Roberts. Yr organyddes oedd Mrs Mair Jones. Morynion y briodferch oedd Lola Jones, Bethan Roberts a Nia Wyn Jones. Rhoddwyd y briodferch i'w gŵr gan ei thad, Mr O.A. Jones. Trefnwyd y blodau gan Mrs Land, Cae Hob. Cafwyd y wledd briodas yn Nhy'n y Coed, Capel Curig.

LLONGYFARCHIADAU: i Wendy Roberts, Gwylfa, Llanrug ar lwyddo yn yr arholiadau ffisiotherapi yng Nghaerdydd a phob lwc iddi hefo'i swydd gyntaf yn Ysbyty Arrowe Park, Birkenhead.



PRIODAS: Dymuniadau gorau i Dawn Augusta Roberts, merch Mr a Mrs Wavell Roberts, London House a Richard Ceris Lloyd Jones, mab Mr a Mrs Eurwyn Jones, Mairannedd, Groeslon Marc, ar eu priodas ddydd Sadwrn, Awst 4.

PEN-BLWYDD YN 100 OED:

I longyfarch Mrs Jane Williams, 14 Hafan Elan, Llanrug ar ben ei blwydd yn gant oed ar Orffennaf 24, 1984.

Can mlynedd lawn i heddiw
Fe anwyd geneth fach;
Jane roddwyd iddi'n enw
Fel llawer un o'i hach.

Rhyw seithbwys oedd ei phwysau,
(Os wyf yn cofio'n iawn)
Pwy fyth i hon broffwydai
Oes faith o ganrif lawn.

Bu'n gweithio'n ddyfal ddyfal
Ar hyd y blwyddi maith
Yn awr yn Hafan Elan
Caiff seibiant ar y daith.

Bu'n selog yn ei chapel
A ffyddlon drwy ei hoes,
Gan ganmol yn ddiarbed
Y Gŵr fu ar y Groes.

Cadd lawer o golledion
Yn nyddiau'r rhyfel du
Ond dal o hyd yn ffyddlon
A wnaeth i'w Cheidwad cu.

Capeli enwog Lerpwl
Fu'n annwyl iddi hi, -
Edge Lane, Chatham a Bootle
A Princes Road o fri

A'u hynod Weinidogion,
Bu'n eistedd wrth eu traed,
Do, clywodd rai enwogion
Yn canmol gwerth y Gwaed.

Dymuno heddiw iddi
O galon bur a wnawn
Barhau yng nghwmni'r Iesu
A'i chwpan fyth yn llawn.

Gan ddymuno i chwi bob bendith
W.O. a Nansi Roberts

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Bydd cyfarfod cyntaf tymor ar Hydref 23.

Edrychir ymlaen am gyfarfodydd llwyddiannus a gwahoddir aelodau o'r newydd i ymuno, ganfod rhaglen eisoes yn cael ei threfnu.

Dymunir adferiad buan i Mr Orwig C. Roberts, Elidir View, sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yn Festri Pontrhythallt pnaun lau Medi 17. Llywyddwyd gan Mrs M Lloyd Williams, a chafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs M. Williams, Bron Eryri, ar 'Hen Hanesion'. Rhoddwyd y te gan Mrs Griffith, Dolanog, a Mrs M. Williams, Bron Eryri. Bydd y cyfarfod nesaf pnaun lau, Medi 20 am 2.30.



Llongyfarchiadau i'r Parch a Mrs W.O. Roberts ar ddatlu eu Priodas Ruddem ar Fehefin 14eg. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt ar gyfer y dyfodol.



Gwasanaeth derbyn aelodau newydd Urdd Sant Ioan yng Nghapel Mawr, Gorffennaf 12, 1984.

FFARWELIO ...



Mr Derfel Gruffydd, Prifathro Ysgol Gynradd Llanrug, yn cyflwyno rhodd i Mr Dafydd Idriswyn Roberts, Dirprwy-brifathro'r ysgol ar ei ymddeoliad i fod yn brifathro Ysgol Cwm-y-glo.



Treuliodd aelodau iau Band Llanrug ddau diwrnod cyfan o'u gwyliau ysgol yn ymarfer gyda'u harweinydd, Mr Boylin. Mae dros 20 o aelodau dan 15 oed yn y Band ar hyn o bryd, a bwriedir sefydlu Band lau yn y pentref.

DEINIOLEN *parhad*

LLONGYFARCHIADAU: i Barry Wardle ar ei ben-blwydd yn 21ain oed. Da ei weld gartref ar ei wyliau yn edrych mor dda.

Dymuna Barry ddiolch o galon am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd.

DIOLCH: Dymuna Neville Thorman-Jones, 14 Tai Caradog ddiolch yn gynnes iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'u cymorth parod a'r galwadau ffôn tra bu'n yr ysbyty ac ar ôl dod adre. Diolch arbennig i'r meddyg lleol.

Y BADAU ACHUB: Yn ddiweddar fe gynhaliwyd Dydd Baneri at y Badau Achub. Cyfanswm casgliad Deiniolen, Dinorwig a'r Fachwen oedd £68.06. Y casglwyr oedd Miss Nicola Marzelos (18.48), Mrs Phyllis Jones a Mrs N. Price (8.83), Miss Heather Hughes (7.27), Mrs E. Hughes (3.80), Miss Nia Davies (2.86), Mrs C. Price (12.37). Miss Iona Wyn Williams, Dinorwig a'r Fachwen (14.45).

Roedd Lyn yn cynorthwyo i wneud cyfanswm Cylch Caernarfon yn £1274.35. Y trefnydd lleol oedd Mrs C. Price. Diolch i bawb am eu hymdrech.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

**Wavell
Roberts
CIGYDD**

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn. (Waunfawr 626)

Y CARNIFAL – Unwaith eto cafwyd wythnos lwyddiannus. Dechreuodd y gweithgareddau hefo coroni'r Frenhines Heidi yn neuadd yr Eglwys gan y Frenhines Felicity. Cyflwynwyd y ddawns flodau gan enethod bach yr ysgol a chângangôr o enethod hŷn, y geiriau gan Mrs Gwenlli Williams.

Nos Lun, Mehefin 25 cafwyd cystadleuaeth 5 bob ochr ar gae'r Ganolfan. Yr enillwyr: Dan 15 Tim Wayne, Dros 15 Tim Bro Waun. Cyflwynwyd medalau i'r chwaraewyr gan y Frenhines Heidi.

Nos Fercher, ar gae'r Ganolfan cafwyd Gemau Giamocs rhwng tri thîm o'r pentref. Yr enillwyr oedd Tim Canol y Pentref a chyflwynwyd cwpan i'r Capten, sef gan y Frenhines.

Cafwyd diwrnod btraf eto eleni i'r Carnifal ei hun. Yn arwain yr orymdaith yroedd y Frenhines Heidi a'i gosgordd. Y beirniad oedd Syr Wymff a chafodd dipyn o waith yn dewis y goreuon. Dyma'r canlyniadau:

Gwisg Ffansi dan 4: 1 Sioned, 2 Edryd a Sioned Angharad, 3 Elin. Dan 6: 1 Trystan, 2 Manon, 3 Annie. Dan 8: 1 Iona a Wena, 2 Louise, 3 Anwen. Dan 11: 1 Fflur, 2 Ffion, 3 Ella Wyn. Dan 14: 1 Karen a Sian, 2 Lyn, 3 Nan Wyn. Dan 18: 1 Heather, 2 Dylan, 3 Huw.

Addurno beic neu bram: 1 Nia, 2 Delyth, 3 Llion ac Elain.

Grŵp: 1 Karen a Sian, 2 Lyn a Sandra, 3 Dylan ac Alison.

Coes Orau: Pat Giles.

Pengliniau gorau: Steve Jones.

Y gystadleuaeth fabanod: Emma Louise. **Y MABOLGAMPAU**

Ras Genethod Dan 5: 1 Kristy, 2 Rebecca, 3 Alison. Dan 7: 1 Penny, 2 Elain, 3 Lisa. Dan 9: 1 Sarah, 2 Kailey, 3 Sara. Dan 11: 1 Bethan, 2 Gwenan, 3 Caroline.

Ras Bechgyn Dan 5: 1 Gerallt, 2 Adam, 3 Simon. Dan 7: 1 Andrew, 2 Jonathan, 3 Deian. Dan 9: 1 Eilir, 2 Rhodri, 3 Jason. Dan 11: 1 Dylan, 2 Telor, 3 Neil.

Ras Wy ar Lwy: Dan 5: 1 Kristy, 2 Mathew, 3 Marc. Dan 7: 1 Andrew, 2 Penny, 3 Jonathan. Dan 9: 1 Eilir, 2 Jason, 3 Rhodri.

Naid Uchel dan 7: 1 Andrew, 2 Ceirion a Penny. Dan 9: 1 Jason, 2 Rhodri, 3 Sarah. Dan 11: 1 Dylan, 2 Neil, 3 Gwennan.

Naid Hir dan 11: 1 Dylan, 2 Neil, 3 Jason a Caroline.

Ras Tair Coes Dan 9: 1 Geraint ac Eilir, 3 Trystan a Neil. Dan 11: 1 Sharon a Felicity, 2 Telor a Dylan, 3 Gerallt a Rhodri.

Ras Beic Araf: 1 Alan, 2 Gwennan.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu i wneud y carnifal yn llwyddiant unwaith eto ac i bawb a fu mor garedig â rhoi rhodd ariannol. Diolch yn fawr iawn.

CLWB GWYRFAI – Yn ddiweddar cynhaliwyd pwyllgor o'r Clwb dan lywyddiaeth y Ficer, Y Parchedig Trefor Jones. Y siaradwr yn y cyfarfod cyntaf ar 4 Hydref fydd Mr Frank Rhys Jones, Tregarth. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan ac er hwylustod i'r siaradwyr dechreuir yn brydlon am 2pm. Felly bydd y bws yn gadael y Groeslon am 1.30. Croeso yn ôl i'r holl aelodau a chyfle i rai newydd ymaelodi.

DIOLCH – Dymuna John, Pant Teg a'i deulu ddiolch i gyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd ar ôl iddo dderbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

CRONFA'R GANOLFAN – Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mehefin: 1 (£40) Victor Davies, Hafod Wen; 2 (£25) Betty Haley, Llys Alaw; 3 (£10) I. Bracegirdle, 23 Bro Waun.

Dyma'r enillwyr am fis Gorffennaf: 1 (£40) Alice Johnstone, Tŷ Gwyn; 2 (£25) Peter Marston, Blaen y Nant; 3 (£10) Annie Roberts, 4 Ael y Bryn.

MERCHED Y WAWR – Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor 84-85 yn yr Ysgol Gynradd, nos Iau, Medi 27. Bydd y gangen yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeg oed yng nghwmni Miss Jini Owen o Fangor. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

CLWB 100 PLAID CYMRU – Dyma enillwyr mis Mehefin: 1 John Gwynedd, Nant; 2 Eurig Wyn, Y Frenni, 3 Carys Owen, Lloches.

DIOLCH – Dymuna Miss Jennie Jones, Bryn Tirion ddiolch i'w chymdogion, teulu a chyfeillion am eu caredigrwydd gartref a phan oedd yn ysbyty Gallt y Sil. Diolch hefyd i'r meddygon yn y Waun a'r ysbyty ac i'r holl staff yng Ngallt y Sil.

Y GANOLFAN – Roedd y Swper Awyr Agored Nos Wener, 20 Gorffennaf eleni eto yn llwyddiant a gwnaed elw o £206.50. Enillydd y raffl wrth y giât oedd Mrs Annie Blodwen Pritchard ac enillwyd raffl y cae fel a ganlyn: Mrs Stanley Williams, Miss Marian Jones, Mrs Huw Parry, Mrs Marlene Owen, Mrs John Smith, Mrs Gladys Greasley, Mrs Emsil Jones.

DIOLCH – Dymuna Stephen ac Elisabeth Jones (gynt o 18 Tref Eilian) ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yng Nghapel Croesywaun, Gorffennaf 28.

PRIODAS – Yng nghapel Croesywaun ar 28 Gorffennaf priododd Stephen Jones, mab Mr a Mrs E.W. Jones, 30 Bro Silyn, Talysarn gydag Elisabeth E Owen, merch Mr a Mrs W T Owen, 18 Tref Eilian, Waunfawr. Gwasanaethwyd gan y Parch. Emrys Thomas. Maent yn ymgartrefu yn Awel y Môr, 3 Gosen Terrace, Groeslon.

YR URDD – Bydd yr Urdd yn ailddechrau nos Fercher, Medi 12. Noson ymaelodi fydd hon. Yn yr ysgol am 6 o'r gloch.

ARHOLIADAU CERDD – Llongyfarchion i'r rhai canlynol ar eu llwyddiant:

Piano (Gradd 2) Dylan Jones, Rhandir Mwyn (gyda theilyngdod); (Gradd 3) Euros Wynn, Y Frenni; (Gradd 4) Karen Roberts, Sŵn y Gwynt (gyda theilyngdod). Obo (Gradd 6) Joanna Marston, Blaen y Nant (gyda theilyngdod); (Gradd 4) Telor Hedd Iwan, Penberth.

Llongyfarchion hefyd i Siân Barnes, Fach Goch ar lwyddo i fod yn aelod o Adran Linynnol Cerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru a gymerodd ran yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanbed.

CYDYMDEIMLWN yn fawr iawn â Rhodri Prys Jones, 15 Stad Tŷ Hen yn ei brofedigaeth o golli mam; â Mrs Rose Ann Hughes, Tref Eilian yn ei phrofedigaeth hithau o golli tad; hefyd â Dafydd Iwan, Penberth, a gollodd ei dad yntau yn frawychus o sydyn.

YN YR YSBYTY y mae Mr Fred Jones, 6 Bryn Golau, Mr Robert Ap Wyn, Tegannedd a Mrs Idris Humphreys, Arwel. Anfonwn ein cofion atynt a

dymunwn lwyr wellhad buan iddynt.

YR YSGOL – Mabolgampau. Enillwyd Tarian Mabolgampwraig yr ysgol gan Diane M Davies (Safon II) a Tharian Mabolgampwr gan Dylan Jones (Safon IV). Rhoddwyd y ddwy darian i'r ysgol gan Mr Eurig Wyn.



Mabolgampwyr Ysgol Waunfawr, Diane Davies a Dylan Jones.

Maud Williams yn trefnu blodau.

DIOLCH – Dymuna Mrs Rhian Ellis Glyn Awel ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra yn yr ysbyty a hefyd ar ôl dod adref.

YSGOL FEITHRIN – Bydd yr Ysgol Feithrin yn ailddechrau yn Festri Capel Croes y Waun dydd Mawrth, Medi 4 am 9.15 o'r gloch. Mae lle i nifer bychan o blant sydd yn ddwy a hanner oed; cysyllter â Mrs Carys Jones, 4 Stad Tŷ Hen.

DIOLCH – Dymuna Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian, Iris a John, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli gwraig a mam annwyl. Derbyniwyd £656 er cof am Greta tuag at Gronfa Dinorwig Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU i Carol ac Alan, 8 Bryn Golau ar enedigaeth merch fach.

i Dr Kenneth Leathley Jones, Tegfan ar ei briodas â Susan Jones.

i Elisabeth Owen, Noddfa ar ei phriodas â Stephen Jones o Dalysarn.

i Mr Treflyn Thomas a'i fab Dafydd, Treforfan ar ennill gwobrau yn Sioe Adar y Felinheli.

i Gary a Christine Davies, Hafan ar enedigaeth merch fach, Emma, chwaer i Andrew a Kevin.

i Nia Pritchard, Min y Grug ar ei phen-blwydd yn 21 oed.

i Grace a John Dawson, Bro Waun ar ddathlu eu priodas arian ar 10 Gorffennaf.

i Janet Dawson, Bro Waun, a Peter Greasley, Minafon ar eu priodas yng Nghaernarfon. Maent yn ymgartrefu yn 10 Stad Tŷ Hen.

i Siân Williams, Llwydiarth ar ei phriodas â Dafydd Hughes, Twll Clawdd, Llanrug yng nghapel Croes y Waun, Awst 4. Maent yn ymgartrefu ym Mhonrhythallt.

i Nia Wyn, Tan y Fron am ennill ar gystadleuaeth arlunio yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

i Mrs Catherine Jones, Crud yr Awel ar gael ei derbyn yn aelod o'r Orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol.



Carnifal Waunfawr

HWYL YR HAF – O GARNIFALAU ...

DEINIOLEN ...



Y Frenhines a'i gosgordd.



Owain Gwyn a Gwennan Haf, mab a merch Mr a Mrs William G. Owen, Glan Beuno, Bontnewydd. Enillodd Owain Gwyn y wobwr gyntaf a'i chwaer fach y drydedd wobwr yng ngharnifal Deinïolen. Hefyd enillodd Owain Gwyn prif wobwr y carnifal — Cwpan Goffa y diweddar Mr Cledwyn Jones, Rhos Newydd, Deinïolen. Wyrion bach ydynt i Mr a Mrs Owie Hughes, Rhyd Fadog a gor-wyrion i Mr a Mrs James, Regent House.

LLANBERIS ...



Creaduriaid od ar Ddôl y Goeden.


PENISARWAUN ...



WAUNFAWR ...



BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da

Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...**



**BWSIAU ARFON
LLANRUG**

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

LLONGYFARCHIADAU i blant y pentref ar eu llwyddiant yn eu harholiadau eleni.

i Kevin Tulliver, Bodwyn ar ennill gradd gydag anrhydedd yn y Coleg Normal, Bangor. Mae Kevin wedi ei benodi yn Athro Gwaith Coed yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Pob dymuniad da iddo.

i Mr a Mrs Idwal Williams, Elidir View am fod yn daid a nain ddwywaith yn ddiweddar. Ganwyd mab i Gwyn a Dwynwen yn Llanrug, a mab i Eirian a Dyfrig yn Llanfairpwll.

YN YR YSBYTY y mae Dino Bellini, Eithin Duon ers rhai wythnosau ar ôl damwain; hefyd Mrs Hannah Williams, 2 Maes Gerddi. Anfonwn ein cofion atynt a dymunwn wellhad buan iawn iddynt.

ADREF O'R YSBYTY daeth Mrs Katie Williams, 5 Dôl Afon, Mrs Edith Owen, Talgwynedd a Mr Russell Rowlands, Talafon. Da yw deall fod y tri yn parhau i wella.

DIOLCH. Dymuna Mrs Katie Williams, 5 Dôl Afon ddiolch i'w pherthnasau, cyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd tra oedd yn Ysbyty Môn ac Arfon ac ar ôl dod adref.

GWELLHAD - Dymunir gwellhad buan i Medi Jones, Bron Eryri ar ôl damwain a thorri ei choes.

ALUN YN GALW - Yn ystod mis Gorffennaf ar raglen Alun yn Galw bu Rhiannon, merch Mr a Mrs W R Jones, 7 Dôl Afon a'i phriod Hywel yn siarad ag Alun Williams yn Georgetown, Grand Cayman, India'r Gorllewin. Anfonodd y ddau eu cyfarchion at eu teuluoedd a'u ffrindiau. Bydd Rhiannon a Hywel yn cartrefu yn Grand Cayman hyd ddiwedd mis Tachwedd 1985.

WYTHNOS Y CARNIFAL - Bu'n wythnos lwyddiannus iawn eto eleni.

Nos Lun cynhaliwyd noson Bingo ac enillwyd y raffl gan: 1 Tecell Trydan - Mrs Margaret Wardle; 2 Cloc - Mr Lloyd Owen; 3 Gêm - Mr Russell Rowlands; 4 Tegan - Dafydd Williams.

Nos Fawrth cynhaliwyd disco i'r plant yn y Ganolfan Gymdeithasol.

Trefnwyd Helfa Drysor nos Fercher a'r enillwyr oedd: 1 Mr Gwilym Williams, 2 Ieuan Rowlands, 3 Cledwyn Jones.

Cynhaliwyd cystadleuaeth dartiau yng Ngwesty Snowdon nos lau a'r enillwyr oedd: 1 Brian Dillon, 2 Kevin Owen.

Nos Wener cynhaliwyd y chwaraeon, a dyma'r canlyniadau: RAS dan 5 GENETHOD: 1 Kelly Davies, 2 Bethan Hughes, 3 Sara Roberts.

RAS dan 5 BECHGYN: 1 Kevin Williams, 2 Glyn Price, 3 Huw Davies.

RAS dan 6 GENETHOD: 1 Donna Williams, 2 Eluned Davies, 3 Rebecca Walkden.

RAS dan 6 BECHGYN: 1 Martin Parry, 2 David Wager.

RAS dan 7 GENETHOD: 1 Delyth Morris, 2 Elen Roberts.

RAS dan 7 BECHGYN: 1 Terry Williams.

RAS dan 8 GENETHOD: 1 Cheryl Hughes.

RAS dan 8 BECHGYN: 1 Michael Jones, 2 Steven Jones, 3 Dafydd Williams.

RAS dan 10 Genethod: 1 Nicola Houston, 2 Carys Williams, 3 Debbie Jones, Catrin Keller.

RAS dan 10 Bechgyn: 1 Iolo Eilian, 2

Owain Gwyn, 3 Alan Sinclair.

RAS dan 12 Genethod: 1 Ffion Williams, 2 Julie Morris, 3 Carolyn Jones.

RAS dan 12 Bechgyn: 1 Dewi Jones, 2 Kelvin Houston, 3 Adrian Jones.

RAS dan 14 Genethod: 1 Sandra Hughes, 2 Christine Jones, 3 Alison Jones.

RAS dan 14 Bechgyn: 1 Robin Jones, 2 Geraint Ellis, 3 Terry Williams.

RAS dan 16 Genethod: 1 Alison Jones, 2 Joanne Evans, 3 Gabriel Williams.

RAS dan 16 Bechgyn: 1 Bruce Johnson, 2 Jackie Ellis, 3 Barry John Roberts.

RAS TEIRCOES (ieuengaf): 1 Adrian a Huw, 2 Carys a Karen, 3 Julie a Rhian.

RAS TEIRCOES (hynaf): 1 Carolyn a Christie, 2 Terry a David, 3 Dewi a Dilwyn.

RAS BEIC ARAF: 1 Huw Williams, 2 Adrian Jones, 3 Andrew Williams.

RAS BERFA (1af): 1 Alison a Karen, 2 Carolyn a Christie.

RAS BERFA (ail): 1 Robin a Henry, 2 Barry John a Nigel John.

RAS BERFA (3ydd): 1 William a John, 2 Christopher a Kelvin.

RAS GYFNEWID: 1 Barry John, Nigel John, Bruce a Jackie.

RAS dros 16 Merched: 1 Carol Houston, 2 Jan Tulliver, 3 Margaret Wardle.

RAS dros 16 Dynion: 1 Dafydd Price, 2 Francis Hughes, 3 Elfed Parry.

RAS mewn SACH: 1 Gareth Jones, 2 Terry Williams.

TYNNU RHAF (Merched v Dynion) 1 Merched.

ENILLWYR Y RAFFL: 1 William Davies, Alexandria House, 2 Carys Williams, Bryn.

Dydd Sadwrn arweiniwyd yr orymdaith o iard yr ysgol gan Seindorf Arian Llanrug. Agorwyd y Carnifal gan Mr Dafydd Idriswyn Roberts, Rhoscefnhir, Ynys Môn. Y Beirniaid oedd Mr a Mrs D. I. Roberts, Mr a Mrs R. Gwyrfa Jones, Dinbych a Mr John R. Rowlands, Wrecsam. MS y diwrnod oedd Mr Lloyd Owen.

Canlyniadau'r Wisg Ffansi oedd:

Dan 5: 1 Bethan Hughes, 2 Kevin Williams, 3 Gwenan Roberts.

Dan 8: 1 Elen Roberts, 2 Sara Roberts, 3 Donna Williams, Delyth Morris.

8-12: 1 William Wardle, 2 David Roberts, 3 Huw Williams, Catherine Williams.

12-15: 1 Terry Williams, 2 Alison Jones, 3 Einir Gwyn.

Unrhyw wisg hysbysebu: 1 Cheryl Hughes, 2 Clare Fields, 3 Fred Haness.

Y Wisg rataf: 1 Owain Gwyn, 2 Rebecca Walkden, 3 Susanne Fields.

Unrhyw Gymeriad Adnabyddus: 1 Ann Hughes, 2 Megan Davies, 3 Terry Williams a Catrin Gwyn.

Y Pâr gorau: 1 Carys Williams a Karen Williams, 2 Catrin Gwyn ac Owain Gwyn, 3 David Wager a Sarah Wager.

Y Grŵp Gorau: 1 St Trinian's.

Beic wedi'i addurno: 1 William Wardle, 2 Alison Jones, Karen Williams.

Coes fwyaf siapus: 1 Roberta Walkden, 2 Gabriel Williams, 3 Fred Haness.

Enillwyr Raffl y Stondinau: Undeb y Mamau (Teisen) - Veronica Williams, Glanbogelyn, Cwm-y-glo.

Pobl y Cwm (Bocs o Ffrwythau) 1 Mrs Roberts, Penrallt, Cwm-y-glo, 2 Delyth Morris, Becws, Cwm-y-glo.

Merched y Wawr (Bocs nwyddau) - Judith, 4 Disgwyllfa, Llanrug.

Gwaith Llaw (dyfalu faint o gyrens mewn cacen) - Jill Morris, Llwyni, Cwm-y-glo.

Rhif lwcus tun cwrw - Jacqueline Davies, 12 Dôl Afon, Cwm-y-glo. Lamp - Iola Evans, Garnet, Llanrug. Enillwyr y Raffl Fawr: 1 Terry Williams, Bryn, Cwm-y-glo; 2 Eleanor Jones, Gweledfa, Penrhos, Bangor; 3 Keith Jones, 4 Dôl Afon, Cwm-y-glo; 4 16 Bro Rhyddallt, Llanrug; 5 12 Dôl Afon, Cwm-y-glo; 6 Dixon, Bryn Awelon, Cwm-y-glo; 7 Ifanwy Jones, Min y Nant,

Cwm-y-glo; 8 David Price, Tan y Graig, Cwm-y-glo; 9 40 Bro Rhyddallt, Llanrug.

Rhif Lwcus y rhaglenni: Rhif 30.

Nos Sadwrn cynhaliwyd Disco yng Ngwesty Plas Tan Dinas, Dinas Dinlle.

Dymuna Pwyllgor y Carnifal ddiolch i bawb am eu cefnogaeth mewn unrhyw fodd i lwyddiant y carnifal.

PRIFATHRO YN YMDDEOL



Mrs G. Chick, Cadeirydd y Rheolwyr, yn cyflwyno Rhodd i Mr Eirwyn Jones ar ran plant, staff a rheolwyr yr ysgol.



Cyfarfod ffarwelio â Mr Eirwyn Jones.

Pnawn lau, Gorffennaf 12 cynhaliwyd cyfarfod yn yr ysgol ar achlysur ymddeoliad Mr Eirwyn Thomas Jones a fu'n brifathro'r ysgol am ddeunaw mlynedd.

Daeth lluo o ffrindiau ac ardalwyr ynghyd i ddangos eu gwerthfawrogiad iddo. Cafwyd eitemau gan y plant ac yr oedd awenau'r cyfarfod yn nwylo medrus Mr Llew Hughes, un o reolwyr yr ysgol.

Dymunwyd yn dda i Mr a Mrs Jones gan Mrs Eluned Thomas a Mrs Mary Lewis a fu ar staff yr ysgol yn cydweithio gyda Mr Jones am rai blynnyddoedd.

Talwyd teyrnged iddo gan Mr Dafydd Ellis, Brynrefail (ar ran rheolwyr yr ysgol), Mr Gwyn Hefin Jones (ar ran yr Awdurdod Addysg) a Mrs Moreen Lennon ar ran y plant a staff yr ysgol. Roedd Mr Cledwyn Williams Llanrug a Mr Francis Jones yn methu â bod yn bresennol.

Cyflwynwyd rhodd anrhydeddus i Mr Jones ar ran plant a staff yr ysgol, cynddisgyblion, rheolwyr, ardalwyr a rhieni Cwm-y-glo a Brynrefail gan Mrs Gwyneth Chick (Cadeirydd y Rheolwyr) a thusw o flodau i Mrs Jones ar ran Cymdeithas Rieni yr

ysgol gan Sharon Thomas.

Ymatebodd Mr Jones trwy ddweud ei fod yn ddiolchgar i bawb am eu caredigrwydd a gobeithiai y byddai i'r prifathro newydd dreulio blynnyddoedd o hapusrwydd yn yr ardal.

Roedd Mrs Gina Keller yn gorffen fel athrawes dros-dro yn yr ysgol hefyd a chyflwynwyd hi ag anrheg ar ran y plant, staff a chymdeithas rhieni'r ysgol gan Rona Humphreys.

Gorffennwyd y cyfarfod gan y plant yn canu cân o ddiolch am wasanaeth y prifathro.

(Dymuna Mrs M. Lennon ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i wneud y cyfarfod yn llwyddiant.)

DRAENOG



Be' feddylwch chi o'r wraig o Lanrug a anghofiodd ddod o'r trên ym Mangor, a chael ei hun yn y ciw llong i'r lwerddon ar stesion Caergybi?

Ffiniau'r Gorffennol Y FRONFRAITH

Mae'n fore heulog yn y gwanwyn - mae'n debycach i fore o "haf hirlfelyn tesog". Mae'r awel mor dyner â sidan! Y mae "ysbryd y gwanwyn" yn hedfan trwy'r wig yn ddistaw a chyfrin.

Ust, gwrandewch! "Y mae'r fronfraith yn canu ar frigyn onnen o'n blaen."

Yr wyf am i chwi ddychmygu eich bo yn eistedd ar graig yn ardal y Clegir, ddwy filltir i fyny'r mynydd o Lanberis, ac yn gwrandawr ar gân y fronfraith. Tybed a oes rhywun yng Nghymru allai ei dynwared? R. Morgan recordiodd gân y fronfraith yn 1903. Fe wnaeth wrhydri yn fy marn i.

Gwrandewch! "Ji-wit, ji-wit, ji-wit - whirri-hw, whirri-hw, whirri-hw, twrrhit, tw-rrhit!"

Mae'n cymryd hamdden. Yna ail ddechrau. "Hwrrhw- whrrt - shiryp - whrrt, whrrt, whrrt - whiti - whiti!"

Mae'n aros eto ac ailgychwyn. "Bo-pip, bo-pip, bo-pip - sili-ffrit, sili-ffrit - tw-rrhit - jirri-rip, jirri-rip, whiti-whiti - whirri-hw, whiti, whiti, whiti - whrrt - jw-it, jw-it, jw-it, trrrwtrw-tit, trrrwtrw-tit - ji-w, ji-w, ji-w, ji-w, ji-w, ji-w, - wiji-wit, wiji-wit, wiji-wit - wi-jyp, jyp, jyp, jyp!"

Ehedodd ymaith! Gwelodd ni efallai! Yr oedd gan y fronfraith ragor o amrywiaeth nodau a goslef. Rhyfeddol! Gwrandewch eto. Fel hyn y recordiodd R. Morgan gân y benfelyn.

"Tsht-tsht - tsht - tsht - sh-i-i-i-i. Clywch Aderyn yr Eira (Starling) yn gweiddi ar ei gariad "Whi-i-i-i-t." Unwaith eto "Wh-i-i-i-t!" Mae'n tewi i wrando ar gân y fronfraith efallai.

Cefais yr uchod yn y Cymru Mawr am fis Mai 1903 o dan y pennawd Tro Trwy'r Wig.

Cefais yr englyn canlynol yng nghopi fy nhad.

Clywais a sylwair ar solo - o'r berth,
O ryw gywain bib gwyno;
Y bywiog un, o'i big o
Odlau haf, sy'n dylifo.

DELW RHYDDID AMERICA

Y ddelw fwyaf yn y byd yw'r ddelw a welir ger harbwr New York, a gelwir hi Delw Rhyddid.

Saif ar ddarn bychan o dir a elwir "Bedloe's Island".

Gwaith llaw cerfunydd o Ffrainc o'r enw M. Auguste Bartholdi. Rhoddwyd hi yn anrheg i'r Unol Daleithiau gan Ffrainc er dathlu Canmlwyddiant Cyhoeddi Annibyniaeth y Taleithiau.

Ei fam a gymerodd y cerflunydd yn fodel, a bu am flynyddoedd cyn gorffen y ddelw yn 1883. Gosodwyd hi i fyny ym Mharis i weld fod pob rhan ohoni'n gyflawn, cyn ei chludo dros yr Atlantig mewn llong rhyfel. Yna dechreuwyd adeiladu tŵr yn sylfaen iddi, ac wedi cwblhau popeth yr oedd y ddelw o'r sylfaen i'r fflamdorch sydd yn ei llaw fry, dros 300 troedfedd o uchder rhwng y sylfaen, wrth gwrs: y ddelw ei hun yn 151 o droedfedd.

Er rhoddi syniad i chwi am ei maintoli wele rai mesuriadau: y mae hyd llaw y ddelw yn 16 troedfedd 5 modfedd; y mae hyd ei bys yn wyth troedfedd, ac yn saith troedfedd a hanner o gylchfesur yn ei ganol, a'r ewin yn 13 modfedd o hyd a deg ar draws.

Defnydd y ddelw yw metal, copr a haearn: ac y mae'n pwyso dros ddau can tunnell. Gall deugain o bobl sefyll ym mhen y ddelw, a deuddeg sefyll ar ben y fflamdorch. Y mae'r fraich yn 42 troedfedd o hyd. Costiodd chwech ugain mil o bunnau i'w gwneud. Goleuir y gerffdelw â dros gant o lampau trydan, a phob un ohonynt yn fil "watt". Gwelir hi am filltiroedd lawer o'r môr yn gwahodd y byd i ddod i ryddid mawr y Gorllewin.

Y FRONFRAITH

I orffen dyma englyn Owain Peris i'r fronfraith.

Burfronfraith! pa iaith, pwy weithiau - all wneud

Holl nodau dy gyngan?
Fiwsig cu! dyfeisio cân
Bob bore ar bib arian!

GLAN RHYDDALLT

OWAIN PERIS

NANT PERIS

LLONYFARCHIADAU: i Lyn, wyres Mr John Morgan, 1 Gwastadnant am raddio BA ym Mhrifysgol Bangor.

EGLWYS SANT PERIS: Cymerwyd y gwasanaeth fore Sul, Awst 12 yn Eglwys Sant Peris gan y Parchedig Alun Hawkins, Rheithor newydd y plwyf. Dymunir pob llwyddiant iddo ef a'i deulu yn eu maes newydd.

Y CARNIFAL: Cynhaliwyd yr uchod ar nos Wener, Awst 3. Er garwed yr hin, cafwyd noson hwyliog, a llwyddiannus eto eleni, a gwnaethpwyd elw sylweddol. Cynhelir pwyllgor yn fuan i drafod y canlyniadau.

Gwisg Ffansi:

Dan 5: 1. Claudette, 2. Delwen, 3. Sarah a David. 5-8: (Nant) 1. Jennifer. (Agored) 1. Philippa a Sophie, 2. Jessica. 8-11 (Nant) 1. Llinos Haf, 2. Eryl Ogwen, 3. Louise a Chamaine. (Agored) 1. Annette a Llinos Wyn. 11-18 (Nant) 1. David, 2. Michelle. (Agored) 1. Bethan a Janice, 2. Valerie, Andrea a Nicola. Oedolion - 1. Mary Ffranco, 2. Mrs Bates, 3. 'Charles a Diana'.

Babi bochgoch: 1. David. 2. Geraint Wyn. 3. Delwen.

Anifail Anwes: 1. 'Queenie', Tŷ Isa.

Glinia Gwlanog: Plant: 1. Marc. Oedolion - 1. Mrs Davies, Modurdy'r Wyddfa. Nain Hardda - Mrs Bessie Pritchard.

MABOLGAMPAU:

O dan 5: 1. Sarah, 2. Mark Davies, 3. Lucy. 5-8: (Genod) 1. Llinos Wyn, 2. Sandra, 3. Gail. (Hogia) 1. Mathew, 2. Dylan. 8-11 (Genod) 1. Lynn Jones, 2. Melanie, 3. Delyth. (Hogia) 1. Sion Llywelyn, 2. Marc, 3. Edward. 11-18 (Genod) 1. Helen Mai, 2. Claire, 3. Monique. (Hogia) 1. Aled, 2. Paul, 3. Sion. Ras i'r merched: 1. Helen, 2. Claire, 3. Delyth. Ras dair coes (genod) 1. Jennifer a Lynn, 2. Sharon a Chamaine, 3. Christine a Julie. (Hogia) 1. David ac Edward. 2. Anthony a Derfel, 3. John a Barry. (Merched) 1. Bethan a Bethan, 2. Helen ac Alison, 3. Sian a Meinir.

RAFFL

Cas dillad nos: John Noel. Sachiad o lo: Dafydd Emrys. Potel o win coch: Mr a Mrs Hendriks, Holland. Potel o Cider: 1. Dafydd Pritchard. Basged wellt: 1. Les Roberts (SMR), Hambwrdd: Sarah. Sebon: Ellen Owen. Dysglau: J.R. Jones. Cawg: Diana Pritchard. Mat: Alf Choke. Bubble Bath: Tom Gwyn Pritchard.

Ni hawliwyd y brif wobwr, sef dol Gymreig (rhoddedig gan Stesion Wyddfa). Rhifyr tocyn yw 288 - fe werthwyd y tocyn yma wrth y gatiau ar noson y carnifal.

CWM-Y-GLO (Parhad)

PÊL-DROED: Cynhaliwyd y Cinio Blyneddol ar Orffennaf 20 ym Mhlas Tan Dinas, Dinas Dinlle.

Cyflwynwyd y chwaraewyr newydd â tharian gan Mr David Parry, Llanberis. Mr Ken Williams (KMP) a gyflwynodd y gwobrau canlynol: Chwaraewyr y Flwyddyn: Dylan Williams, Martin Williams a Richard Sharpe. Sgoriwr Uchaf: Alwyn Williams.

Dymuna Mrs Edith Owen a

Cyw iâr: Carys Hughes.

Cystadleuaeth dyfalu pwysau'r oen: Y pwysau cywir oedd 59.13, a dyfarnwyd Mrs Alis Searell Jones yn enillydd, gan mai hi oedd â'r cynnig agosaf.

Rholio'r gasgen: 1. Billy, 2. Dafydd.

Dymuna pwyllgor y carnifal ddiolch i bawb a'n cefnogodd mor hael, yn arbennig Stesion Wyddfa, Mr Huws y Glo, Hogia'r Parc, Pant Crossing Nurseries, Gareth Jones, Seindorf Arian, Llanberis a'r beirniaid sef y Parch a Mrs Trefor Lewis, Mr a Mrs Richard Parry, Banc y Midland a'r frenhines Jackie a'i gosgordd, ac yn wir i bob unigolyn a fentrodd allan ar ffasiwn noson. Ein diolch arferol hefyd i'n llywydd ffraeth, Dei Tomos BBC.

DIOLCH: Dymuna Karen Price, Glyn Peris ddiolch i bwyllgor Carnifal Nant Peris a Llanberis a phawb arall a roddodd anrhegion iddi a'r holl ddymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur o fod yn forwyn i'r frenhines y carnifal am 1984.



Dyma lun Karen Price - morwyn y frenhines yn y carnifal yn Llanberis am 1984.

LLWYDDIANT - Llongyfarchwn Jennifer Ellis, Hafan ac Eifion Roberts, Cerrigdrudian ar eu llwyddiant yn yr arholiad Lefel O. Dymunir llwyddiant iddynt eto i'r dyfodol.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Margaret Williams ddiolch o galon i'r chwaraewyr a'u rhieni am y blodau hardd a gawsant. Dymuna Gwilym Williams ac Evan Owen ddiolch yn fawr hefyd i'r chwaraewyr am eu hanrhegion. Dymunodd y chwaraewyr a'i rhieni wellhad buan iawn i Mrs Edith Owen. Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb sydd wedi cefnogi'r tîm drwy'r flwyddyn mewn unrhyw ffordd.

MERCHED Y WAWR: Yng nghyfarfod mis Awst trefnwyd i roi cyfraniad o £50 yr un i'r pedwar elusen canlynol - casgliad Oxfam at y newyn yn yr Affrig; cronfa Nant Gwrtheyrn; Ysbyty Gwynedd, offer i'r merched; ac Ysgol Pendalar.

Yn awr dan berchenogaeth
**GWYNETH
ROBERTS**
Siop

E.WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS 870491

Daliwch i gefnogi fel o'r blaen!

**JUNE'S
MOBILE
HAIRDRESSING**

Gwasanaeth
dydd Llun i ddydd
Gwener

9.00 y bore
7.00 gyda'r nos

Ffôn: Bethesda
600688



UNIG?
WEDI ANOBEITHIO?
MEWN PERYGL O
LADD EICH HUNAN?

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,

YN ABBEY

ROAD

BANGOR

354646



DINORWIG

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

CYMDEITHAS LENYDDOL
UNDEBOL DINORWIG: Ar Fehefin 23 eleni ymwelodd aelodau'r Gymdeithas ar ei gwibdaith flynyddol â Buxton, i ymweld â'r gwasanaetho addurno'r ffynhonnau gyda blodau. Cafwyd cynorthwy caredig Mr Owen E. Evans, Llanrug yn y gwaith o arddangos. Paratowyd cinio ar ein rhan yn nhŷ bwyta 'Millers of Buxton'. Trefnwyd y cinio trwy law Mr T.H. Davies, Bethesda, Deiniolen Motors, a Mr Gwilym Lloyd Williams. Gwnaed trefniadau i'r daith gan Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Ysgrifenyddes y Gymdeithas a Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir, Trysorydd y Gymdeithas, a Mrs Betty Peris Roberts, Llywydd y Gymdeithas. Mwynhawyd y daith yn fawr, ac mae ein diolch yn fawr i'r sawl drefnodd bopeth inni.



PRIODAS: Gorffennaf 28 yng Nghapel Dinorwig MC priodwyd Miss Annette B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, â Mr Gwyn Parri, B.A., Bro Dawel, Deiniolen. Gweinyddwyd y briodas gan y Parch Trefor Lewis, BD, Deiniolen. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mrs Rhianon Gabrielson, LRAM, ARCM. Ymorynion oedd Miss Olwen B. Roberts a Miss Marina B. Roberts, Tŷ'r Ysgol. Byddant yn cartrefu yn 'Cynefin', Deiniolen. Dymuniadau gorau iddynt ar eu priodas.

LLONGYFARCHIADAU: I Mrs Annette B. Parri, Cynefin, (Tŷ'r Ysgol Dinorwig gynt) ar ennill y radd GRNCM; hefyd Miss Marina B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, ar ei llwyddiant gyda'r arholiadau lefel A. Pob lwc i'r dyfodol. Hefyd i Mr Idris Jones, 9 Bro Elidir ar ei llwyddiant gyda'r adar Budgies yn arddangosfa Adar yn y Felinheli yn ddiweddar.

DYMUNO'N DDA: Dymunir yn dda i Mr a Mrs David John Thomas ar eu hymadawiad wedi bod fel ceidwaid Tŷ Capel Sardis (B) am 30 mlynedd. Byddant yn denantiaid yn 8 Maes Eilian, Dinorwig.

PRIODI: Priodwyd Miss Marion Jones, Cae Corniog Mawr, Penisarwaun, â Mr Gareth J. Griffiths, 42 Y Glyn, Caernarfon, yn ddiweddar. Croeso iddynt i'r ardal gan eu bod yn dod i gartrefu yn Bryn Sardis, Dinorwig.

DAMWAIN: Cafodd Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, ddamwain i'w law tra'n dilyn ei alwedigaeth. Dymunir gwellhad buan iddo.

COFION: Ein cofion at bawb o'r darllenwyr yr Eco sy'n cwyno. Parhewch i wella.

CEUNANT

DIOLCHIADAU: Dymuna Mr a Mrs Owen Jones, Y Garth, Ceunant, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau, am yr anrhegion a chardiau a'r galwadau ffôn a gawsant ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem, Gorffennaf 12, 1984. Diolch yn fawr.

CYDYMDEIMLAD: Drwg gennym gofnodi marwolaeth Mrs Gladys Evans, Tanhafodlas, fu farw ar Fehefin 13eg. Symudodd Mrs Evans a'i dwy ferch o Runcorn i fyw i'r ardal flwyddyn yn ôl. 'Roedd yn briod i'r diweddar Owen Edward Evans, M.A. a fagwyd yn Madog Terrace, Craig Dinas. Dechreuodd ei yrfa fel athro ym Mhenisarwaun, yna Clynog cyn symud fel prifathro i Lerpwl lle bu'n weithgar ym myd Addysg ac ymysg y Gymdeithas Gymraeg yno. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w ddwy ferch, Peggy a Glenys Evans a'r teulu oll.

LLONGYFARCHIADAU: i Carys Jones ac Einir Parri ar fod yn llwyddiannus yn eu harholiadau Lefel O. Hefyd i Gwyn Morris ar ei llwyddiant yn yr arholiadau Mathemateg ychwanegol.

PRIODAS RUDDDEM: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Owen Jones, Y Garth ar ddathlu eu priodas ruddem Gorffennaf 12.

PARC HAMDDEN GLYNRHONWY

Gobeithiwn roi sylw manwl i'r datblygiadau posibl yn hen Chwarel Glynrhonwy yn y rhifyn nesaf. Mae croeso i chwi ddatgan eich barn ymlaen llaw ac anfon eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Mary Davies, 9 Llys-y-gwynt (872329)

URDD SANT IOAN - Dymuna Adran Llanberis ddiolch yn fawr iawn i famau Adran Penisarwaun am eu derbyniad ac am y wledd.

Llongyfarchion hefyd i Mrs Betty Arfon Owen, Maes Padarn, a Mr Gwilym Owen, Stryd yr Wyddfa, dau o swyddogion yr Adran am eu dyrchafiad i fod yn Swyddogion Gwasanaeth gyda'r Ambiwylans.

CYDYMDEIMLWN â Mrs K Williams, 8 Llys y Gwynt sydd wedi colli dwy berthynas agos yn ddiweddar.

LLONGYFARCHION i Hughie Jones, Heather Bank ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed, a hefyd Ffion Larsen, Llygad yr Haul ar gyrraedd ei 21 mlwydd oed.

CASGLWYD £14.88 tuag at y Badau Achub. Carai Mrs P Mathews, Freshwinds, ddiolch i'r ardal am eu cefnogaeth a hefyd i'r casglyddion am eu gwaith.

EGLWYS SANTES HELEN - Carai'r Ficer, Y parch. Aled Edwards a'r wardeiniaid ddiolch yn fawr i'r rhai a gerddodd yn y Daith Gerdded ac i'r noddwyr am eu cefnogaeth er budd yr Eglwys.

LLONGYFARCHWN y Ficer a Mrs Edwards ar enedigaeth mab bychan, Steffan Rhys, a hefyd Mr a Mrs Brian Jones, Perthi, hwythau wedi cael mab bach, Dewi Wyn. Llongyfarchwn hefyd Mr a Mrs J. Owen, Siop Gron ar fod yn daid a nain. Ganwyd merch fach i Dawn a Glyn.

GWELLHAD buan yw ein dymuniad i Mr O.C. Roberts a hefyd Mr B. Griffiths ein horganyddion. Mae'r ddau wedi bod yn yr ysbyty, a hefyd Mrs N. Prichard, 4 Bryn Hyfryd, hithau wedi dod adref o ysbyty yn Lerpwl.

PRIODAS - Llongyfarchwn Marian a Gareth ar eu priodas yng Nghapel Eban, Deiniolen ddydd Sadwrn Mehefin 30.

PEDWAR UGAIN - Llongyfarchwn Mrs E Roberts, 12 Llys y Gwynt a Mrs Rose Jones, 26 Bryntirion ar gyrraedd eu 80 oed.

DYMUNA Mrs Roberts, 12 Llys y Gwynt ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd.

DYMUNA Dawn a Glyn Morris ddiolch i bawb am eu dymuniadau da a'r cardiau a'r anrhegion ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Rachel. Diolch yn fawr.

GWELLHAD BUAN i'r rhai canlynol:

Miss Eurgain Roberts, 10 Bryntirion, Miss Sioned W Jones, 17 Bryntirion, Miss Nancy Jones, 15 Bryntirion, sydd wedi bod yn yr ysbyty. Hefyd Mrs N Jones, 2 Llys y Gwynt sydd wedi bod yn wael yn ei chartref. Hefyd Mrs M J Evans, Bod Idris, hithau hefyd wedi bod yn sâl.

LLONGYFARCHWN Mr a Mrs Larsen, Llygaid yr Haul ar fod yn daid a nain unwaith yn rhagor. Ganwyd merch fach i Cai a Lyn.

LLWYDDIANT - Llongyfarchiadau i holl blant y pentref ar eu llwyddiant yn yr arholiadau Lefel A, O a TAU.



Philip Jones, Bryntirion, Penisarwaun a ddaeth yn bumed mewn ras gerdded ac yn bumed hefyd am hyrddio pêl feddal yng Nghyfarfod Cymdeithas Chwaraeon Cymru i Bobl dan Anfaftais Meddyliol yng Nghwmbrân fis Gorffennaf.



Dyma Sion Roberts (10 oed) 6 Bryn Eglwys, Penisarwaun sydd wedi cael llwyddiant yn ddiweddar wrth gystadlu yn y Gaerwen, Ynys Môn ar reidio beiciau BMX. Mae Sion wedi ennill y tlysau a welir yn y llun i gyd yn ystod yr haf eleni. Da iawn Sion.

Ar gyfer pob parti . . .
 I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
 CEIR AR GYFER PRIODASAU
 GWASANAETH TACSI

COFIO RICHARD BURTON gan Goronwy Owen

Roedden ni ym Mhont Rhydyfen yn meddwl y byd o Richard Burton, ac yn ymffrostio yn y ffaith mai bachgen o'r ardal ydoedd. Magwyd llawer o bobol dda yn y pentre bach hwn yn Nyffryn Afan, ond doedd neb wedi gwneud eu marc ar lwyfannau'r byd i gymharu ag ef, a chredaf fod ei golli yn drueni mawr i'n gwlad.

Pa le bynnag yr awn, a gyda phwy bynnag y siaradwn, unwaith roedd enw'r pentra wedi dod i'r amlwg, amdano ef y byddai'r sgwrs yn troi. Dim ond unwaith y cefais y fraint o gwrdd ag ef, a chefais ef yn hollol ddiymhongar ac yn gwrtais.

Buan y deuais i adnabod rhai o'i dylwyth, dros y blynyddoedd olaf o'm gyrfa. Cofiaf yn dda fy niwrnod cyntaf ym Mhont Rhydyfen. Ar ddiwedd y dydd, daeth dwy ferch i mewn i hebrwng plant y Cymmer at y bws, dwy oedd yn gwneud y gwaith gwirfoddol hyn yn hollol ddi-dâl a di-dor. Hilda, chwaer Richard oedd un ohonynt. Nid yn unig bu ei merched yn yr Ysgol Gymraeg, bu hi ei hun yn gefn i'r ysgol o'r dechreuad, deuai hefo ni i eisteddfodau'r Urdd, a gyda'i chefnidir o ddiwylliant Cymraeg, roedd o gymorth difesur i ni, hefo adrodd a cherdd dant. At Hilda y byddai'r actor yn dod i aros. Roedd Pont Rhydyfen fel magned iddo, yn ei ddenu gartre i gymysgu hefo'i gyfeillion, ac yn ei ddyddiau

ieuengach i chwarae ambell i gêm o rygbi i dîm y pentra.

Daeth Hilda ag ef i'r ysgol ar ddiwedd un tymor Nadolig. Mwynhaodd y carolau a ganodd y plant, canodd un Gymraeg ei hun hefo'r athrawesau, a phan ymadawodd, rhoddodd anrheg ddigon mawr i ddyblu Cronfa'r Ysgol.

Ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, Neud ag Afan, roedd amryw o Bont Rhydyfen yn gweithio'n galed – fel Mair Thomas a Beti Huws, dwy o gyfeillion Eunice Moss Bank, a doedd neb yn synnu pan gyrhaeddodd y pentre ei nod wrth gasglu arian, ie ymhell o flaen bob pentre arall a'i dyblu hefyd heb ddim trafferth. 'Dach chi'n gweld, roedd Hilda ar y pwyllgor hefyd, ac roedd yna gysylltiad cefndir a ffynhonnell.

Roedd Richard Burton yn cofio'i ardol enedigol a'i diwylliant Cymreig. Fel y dywedodd wrthyf yn nrrws yr ysgol:

"Cymro ydw i bob amser."



Merched y ysgol yn edrych ar y tŷ y ganwyd Richard Burton ynddo. Dechreuwyd adeiladu'r Bont Fawr yn 1820, i gario dŵr i hen waith yr Oakwood. Heddiw defnyddir hi gan draffig ysgafn.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

PRIODAS: Sadwrn Mehefin 23 yng Nghapel M.C. Brynrefail priodwyd M. Eleri Roberts, merch hynaf Mrs Jennie A. Roberts a'r diweddar W. Meirion Roberts, Glandŵr â Simon J. Nixon, mab Mrs Brenda Nixon a'r diweddar J. Nixon, 4 Bishop Walk, Llanelwy. Cynhaliwyd y wledd briodasol yng Ngwesty Castle Bangor gyda 75 o wahoddedigion. Treuliwyd eu mis mēl yn Tenerife.

DIOLCH: Dymuna Eleri a Simon ddiolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd, dymuniadau da a'r anrhegion gwerthfawr a rhoddion mewn arian a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas. Byddant yn cartrefu yn 18 Tan-y-bryn, Llanelwy.



CLWB PEDWARUGAIN: Mis Mehefin – 1af – 1. Colin Wager, 2. Derek Davies, 3. Garry Williams. 8fed – 1. Jill Siop Ganol, 2. Ifanwy Jones, 3. Islwyn Jones. 15ed – 1. Shirley Roberts, 2. Eurwyn Roberts, 3. Betty Owen (Llwyn Coed Bach). 22ain – 1. Betty Owen (Tros yr Afon), 2. Dafydd Price, 3. Meurig Jones. 29ain – 1. Maldwyn Jones, 2. Elen Lewis, 3. Moira Ellis. Gorffennaf – 6ed – 1. Jenny Hughes, 2. Alwyn Williams, 3. Ken Jones. 13eg – 1. Elwyn Williams (Môn), 2. John Williams, 3. Elwyn Williams (Bryn Rhydd). 20fed – 1. Delyth Williams, 2. John Orwig, 3. Rhian

Jones. 27ain – 1. Audrey Roberts, 2. Helen Jones, 3. Alwyn Roberts.

MABOLGAMPAU: Cafwyd y mabolgampau a'r gystadleuaeth wisg ffansi yn y cae chwarae ar Awst 25. Pleser mawr oedd croesawu Mr E.T. Jones (cyn-brifathro ysgol Cwm-y-glo) a Mrs Jones i feirniadu.

CANLYNIADAU:

Gwisg ffansi: O dan 10: rhoddwyd cydradd 1af i'r chwech ymgeisydd: Kelvin, Iola, Nicola, Marian, Gareth a Paul. Dan 16: 1. Alwen, 2. Sally a Gilly, 3. Caron. Dros 16: cyd. 1af (pâr neu grŵp): Janet a Monica; Llinos a Monica.

MABOLGAMPAU:

Ras babanod: 1. Sarah, 2. Kelly, 3. Caroline. Dan 7: 1. Gareth, 2. Iola, 3. Tony. 7-11: 1. Rodney, 2. Kelvin, 3. Nicola. 11-16: 1. Neil, 2. Caron, 3. Alwen. Ras sach 7-11: 1. Kelvin, 2. Marian, cyd 3. Rodney; Nicola. 11-16: 1. Alwen, 2. Kelvin, 3. Andrew. Dros 16: 1. Jackie, 2. Carol, 3. Dafydd. Ras wy a llwy: 1. Rodney; Gilly, 2. Paul, Sally; 3. Andrew, Alwen. Ras dair coes: (plant) 1. Alwen a Caron, 2. Andrew a Kelvin, 3. Sally a Gilly; Paul a Rodney. Oedolion: 1. Pat a Kathy; 2. Audrey a Maureen; 3. Islwyn a Jackie. Ras ferfa: 1. Andrew a Kelvin, 2. Rodney a Paul, 3. Sally a Gilly. Lluchio'r 'Wellington': 7-11: 1. Paul, 2. Kelvin, 3. Tony. 11-16: 1. Tudur, 2. Dewi; Andrew; 3. Gilly. Dros 16: 1. Eryl ac Audrey.

Terfynwyd y gweithgareddau gyda ras y triogl, Ashley Wager a Gilly Glass a fu'n fuddugol a chyflwynwyd hwy â tharian gan Mr E.T. Jones. Neil Roberts a Nicola Houston oedd y ddau gyntaf o blant y pentref.

Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Jones ac anrheg i Mr Jones, gan Iola Davies.

Er bod rhai wythnosau bellach wedi pasio ers y cyfarfod a fu'n ysgol Cwm-y-glo i ddatlu ymddeoliad Mr E.T. Jones fel prifathro – manteisiwn ar y cyfle yma i ddatgan ein diolchgarwch iddo am ei wasanaeth a'i arweiniad i genedlaethau o blant Brynrefail. Dymunwn hir oes yn llawn iechyd a llawenydd i Mr a Mrs Jones. Cyflwynwyd Mr Jones gyda rhodd ar ran plant a rhieni Brynrefail a Chwm-y-glo – dymuna Mr a Mrs Jones ddiolch i drigolion y ddau bentref am eu rhoddion a'u dymuniadau da.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

LLONGYFARCHIADAU i Carys Lloyd Jones, Hafod Owen ar ei llwyddiant yn yr arholiad Lefel O. Dymuniadau gorau'r ardal iddi eto i'r dyfodol.

Balch ydym hefyd o'r newydd da gafodd Mrs Ellis, 3 Tai Bryngwyn am lwyddiant ei hŵyr David Ellis, a enillodd radd BA gydag anrhydedd ym Mhrifysgol Sheffield. Mab i Mr Tom Ellis sydd yn awr byw yn Swydd Nottingham yw David. Ein dymuniadau da iddo yntau i'r dyfodol.

Ar ddiwedd tymor yr haf ymddeolodd Miss Enid Roberts o'i swydd fel athrawes yn Ysgol Dolbadarn. Bu Miss Roberts yn athrawes yn yr ysgol hon am ddeng mlynedd ar hugain, ac yn ystod y blynyddoedd hyn gwnaeth le cynnes iddi'i hun yn yr ysgol a bydd colled ar ei hól wedi'i hymddeoliad cynnar. Pob bendith iddi i'r dyfodol; dyna'n sicr ddymuniad ei hardal.

Croeso adref i Mrs Carys Lloyd Evans, Carwyn ar ôl bod yn Ysbyty Dewi Sant yn cael triniaeth lawfeddygol. Erbyn hyn mae Mrs Evans yn gwella'n foddhaol. Ein

cofion a'n dymuniadau da am lwyr iachâd buan iddi.



Bydd Armaan Kuneel Chohan, Pant Clyd, Tan-y-coed yn dathlu ei ben-blwydd yn flwydd oed ar 24 Awst. Pen-blwydd hapus iddo a llawer tro dedwydd i'r dydd.

Dyma lun Kuneel yn yr ardd.

Dymunwn wellhad buan i Annwen Parry, Ael-y-bryn a gafodd ddamwain i'w braich wrth chwarae. Brysiwch fendio Annwen.

GWELLA: Rydym fel ardal yn falch o weld Mrs Nancy Jones, 6 Tai Bryngwyn yngwella. Dymunwn lwyr wellhad iddi.

DIOLCH: Dymuna Carys Lloyd Evans, Carwyn ddiolch yn fawr i bawb am yr anrhegion, blodau hardd, llucardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty.

W.E.A CANGEN CYLCH CAERNARFON

Sgwrs gan
Mr Huw Williams, M.A.
Bangor

'Sain a Synnwyr'
yn Ysgol Gynradd Llanrug
am 7.00
nos Wener Medi 21ain

Mynediad 50c

Croeso cynnes i bawb

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

Busnes newydd ym
Mro'r Eco...

**EMYR
JONES**

PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI

GWAITH
INSIWLEIDDIO
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513

LLANBERIS

Gohebydd: Miss Jane Morris, 3 Pen y Bont (Llanberis 871561)

DIOLCHIADAU:

Dymuna Nia, 22 Ffordd Goodman ddiolch yn fawr iawn am y llu anrhegion ac arian a dderbyniodd pan roedd yn forwyn i frenhines y carnifal.

Dymuna Mr a Mrs D.A. Jones, Dakota, Olgra Terrace ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a'r holl ffrindia fu mor garedig wrtho tra bu yn yr ysbyty hefyd ar ôl dod gartref. Hefyd am y gofal a'r caredigrwydd yn Upper Surgical y C a A Bangor. Diolch i bawb.

Dymuna Derek Jones, 20 Stryd yr Wyddfa ddiolch o galon i'w holl deulu, cymdogion a llu cyfeillion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra bu'n yr ysbyty yn derbyn triniaeth ac ar ôl dychwelyd gartref. Diolch hefyd i holl staff ward Padarn, Ysbyty Eryri a Nyrs Beth.

Dymuna Mrs Gwyneth Roberts, 38 Stryd Newton ddiolch i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am y llu cardiaid, blodau ac anrhegion a dderbyniodd tra bu'n yr ysbyty yn ddiweddar a hefyd ar ôl dychwelyd adref. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Gwen ac Oliver Edwards, 93 Maes Padarn ddiolch i bawb am yr holl anrhegion a dderbyniodd eu mab Stephen tra'n was i'r frenhines Jackie yn y carnifal. Hefyd hoffwn ddiolch i bwyllgor y carnifal am bopeth. Diolch yn fawr.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr Bryn Parry, Mafeking ar ei benodiad yn Swyddog Perthynas Busnes Ynys Môn (Business Liaison Officer). Bydd Bryn yn dechrau ar eiswydd newydd yn y dyfodol agos. Ar hyn o bryd mae'n Ymgynghorwr Rheolaeth Uned Busnesau bychain gyda'r Bwrdd Datblygu Cymru (Welsh Development Agency). Ein dymuniadau gorau iddo.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Ar Fehefin 28 mwynhawyd trip dirgel i Ynys Môn gan ymweld â'r Felinwynt yn Llanddeusant ac yna ymlaen i Westy'r Harbwr ym Mae Cemaes lle cafwyd croeso a bwyd ardderchog. Trefnwyd y noson gan Mrs Dwywen Roberts a Mrs Katie Griffiths.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf yn y Ganolfan gyda Mrs Betty Humphreys yn llywyddu. Cafwyd sgwrs, gyda sleidiau, diddorol dros ben ar waith Byddin yr Iachawdwriaeth yn fyd-eang gan Major Brown a'i wraig. Diolchwyd iddynt, ac i'r gwestwragedd am y noson, gan Mrs Dilys Jones a Mrs Helen Morris. Y gwestwragedd oedd Mrs Jan Davies, Mrs A.H. Evans, Mrs Ethel Jones a Mrs Dilys Phillips.

TRIPIAU: Gorffennaf oedd mis y tripiâu. Bu plant yr Ysgolion Sul, plant Ysgol Dolbadarn, ac aelodau o Glwb yr Henoed yn mwynhau eu tripiâu yma ac acw, ac eleni rhaid dweud fod y tywydd wedi bod yn ffafriol iawn, ac yn bwysicach na dim, er y mwynhau a'r difyrwrch daeth pawb, hen ac ifanc adra yn ôl yn saff.

CYDYMDEIMLAD: Cafodd amryw o'r ardalwyr brofedigaethau yn ystod y mis, ac estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd yn eu trallod a'u hiraeth.

Collodd Mrs Enid Mabel Williams, Llys Eidda, Stryd Newton, ei phriod yn frawychus o sydyn. Bu William Williams farw yn yr ysbyty ym Mangor.

Yn yr ysbyty ym Mangor bu farw Mrs Nell Jones, 6 Pentre Castell. Un o frodorion yr ardal ydoedd, wedi ei geni a'i magu, a threulio ei dyddiau priodasol yn y bwthyn bach ym Mhentref Castell. Estynnir cydymdeimlad i'w chwaer a gweddill o'r teulu.

Rhyw ddwy neu dair blynedd y mae Mrs Myra Starkey wedi byw yn ein mysg. Daeth yma i gadw busnes yn 44 Y Stryd Fawr. Yn ystod y mis collodd ei thad, Mr Edward Crane, a drigai yn Kiderminster.

Newyddion trist a ddaeth i Megan Rees Hughes, Maes Llwyn, Stryd Newton. Bu farw ei chwaer Katie yn Lerpwl lle y bu'n cartrefu am flynyddoedd lawer. Yn awr, nid oes ond Megan yn aros o deulu mawr dedwydd fu'n dra gweithgar yng Nghapel Gorphwysfa ar hyd y blynyddoedd. Cartref llawn o ganu fyddai Maes Llwyn - ac Yncl Ben (Ben Tomos Stryd Tomos) yn annog y plant a phlant o gapeli eraill hefyd, i ymddiddori mewn cystadlu, ac ymuno â'i Gôr Plant poblogaidd. Cydymdeimlir â chi Megan, gan bawb ohonom sydd wedi cyd-oesi â chi, a diolch fod un o'r teulu o hyd yn cartrefu ym Maes Llwyn.

Fe gofia llawer ohonoch am Margaret Hughes a'i bechgyn yn byw ym Mron Heulog. Yng Nghaernarfon y mae hi'n byw ar hyn o bryd - a chydymdeimlir â hio golli ei mab, Idwal, oedd yn 42 oed, ac yn byw yn Wolverhampton. Trefnwyd ei angladd ym mynwent Nant Peris.

GWAELEDD: Yn ystod y ddau fis diwethaf y mae amryw o'r trigolion yn cwyno - rhai yn eu cartrefi ac eraill yn yr ysbyty. Hwyrach erbyn heddiw fod rhai wedi dychwelyd gartref a dymunir iddynt oll pa le bynnag y bont yr adferiad llwyr af yn fuan iawn.

Mrs Dilys Owen, Bryn Gwynedd, Stryd Newton; Mrs Maggie Price, Stryd Siarlot; Mr W.D. Williams,

Stryd Bethesda; Mrs Ifor Evans, Maes Padarn; Mr Dafydd Jones, Dakota; Mr Eurwyn Jones, Tawel Lan; Mr Griff Owen, Maes Padarn; Mr Bob Owen, Coed Mawr; Miss Amanda Sellers, Dôl Elidir; Mrs Dorothy Thomas, Dôl Eilian; Mrs Enid Roberts, Maes Padarn; Mr Eurwyn Roberts, Tŷ Newydd Clegir.

CERDDOROL: Llongyfarchiadau i'r plant canlynol ar eu llwyddiant ar ganu'r piano dan nawdd y Coleg Cerddorol Llundain: Gradd I: Helen Gartside; Anna Lloyd Roberts (Dosbarth Cyntaf); Euron Thomas. Gradd II: Ruth Parry Jones, Llanrug.

OFFERYNNOL: Pleser mawr yw llongyfarch Dylan Wyn mab Mr a Mrs Eban Wyn Humphreys, 49 Dôl Elidir ar ei llwyddiant gyda'r seindorf. Bu'n llwyddiannus iawn yn ennill ysgoloriaeth i Kneller Hall Military School of Music. Da iawn Dylan, ond nid oeddym yn disgwyl ond llwyddiant i chi, a chwithau wedi eich meithrin yng ngerddorfa seindorf er eich plentynod gan eich tad Eban Wyn. Mae ef wedi bod yn bencampwr ar 'chwythu'r corn' ar hyde eioes. Sawl gwaith ygwelwyd ef ar lwyfannau eisteddfodau lleol yn cipio'r wobrgyntaf bob tro. Ie, nid un eisteddfod, ond ym mhob un.

Da iawn Dylan - gwnewch yn fawr o'r cyfle gwych hwn a dymuniad yr ardal i chi yw pob llwyddiant ymhob adran o'r gwaith, a phob hapusrwydd yn y gwaith fydd yn ddiflas ar brydiau mae'n siŵr.

YMDDEOLIAD: Ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth ffyddlon a chydwybodol i fydd addysgery rhyfel ddiwethaf ymddeolodd Mr Eurwyn Jones, B.A., Tawel Lan o fod yn brifathro yr ysgol gynradd yng Nghwm-y-glo. Ni fu'n dda iawn ei iechyd ers peth amser, a phenderfynodd ymddeol yr haf yma.

Gŵr hamddenol a digyffro yw Eurwyn, yn dawl a diffuant, a didwyll yn ei holl weithredoedd, a gofalai bob tro na châl yr un o'i ddisgyblion unrhyw gam - ond pob anogaeth i bob disgybl.

Trefnwyd cyfarfod arbennig iawn yn yr ysgol gan y rheolwyr a chyflwynwyd siec sylweddol iawn i'r prifathro a thusw hardd o flodau i'w briod, Mrs Hannah Jones. Cafwyd areithiau a geiriau o ddiolchgarwch i'r prifathro gan amryw yn cynnwys rhai o'r rhieni. Dymunir i chi, Eurwyn, lawer blwyddyn eto o hamdden a iechyd da.

RHEDEG: Mae nifer o blant yr ardal yn redwyr brwd, ac yr ydym yn hen gyfarwydd â darllen am llwyddiant y bechgyn a'r genethod mewn ras yma ac acw dros y wlad. Ond, mae enw newydd i'w gofnodi eleni. Ymunodd Julie Wyn Baylis, Anfield â'r Eryri Harriers' ac mae wedi dod â llwyddiant mawr iddi ei hun yn yr amser hwn.

Yn 'Ras "C.B.", Caernarfon' daeth yn 3ydd, ym Mhenygroes daeth yn 2il. Yn ras Ruthun daeth yn ail, ac yn Rhosgadfan a Llandudno roedd ymysg y gorau fel ag yn Ras yr Wyddfa. Yn Rhosgadfan daeth Jennifer Clarida, Dôl Elidir yn 3ydd. Da iawn Julie a Jennifer - daliwch ati.

Yn Ras Moel Siabod daeth Paul Prydderch, Bronallt yngyntaf, hefyd ym Mhenygroes a'i chwaer fach Linda yn gyntaf o dan 11 oed. Campus iawn blant.

ADRAN SANT IOAN: Mewn gwasanaeth yn Eglwys Penisarwaun ar 9 Gorffennaf 1984 derbyniwyd y plant a'u henwau isod yn gadlanciau adran Sant Ioan Llanberis.

Julie Baylis, Jennifer Clarida, Nia Hughes, Nerys Hughes, Cathy Jones, Lisa Jones, Rhian Lloyd, Sian Lloyd, Christine Pitts, Sharon Roberts, Einir Thomas. Llifon Arwyn Foulkes, Eifion Griffiths, Daryl Griffiths, Llion Hughes, Neil Owen, Dylan Parry, Geraint Wyn Thomas, Trystan Thomas, Marc Lloyd Williams, Cai Lloyd Williams.

Tystysgrifau: Gweini ar y claf gartref: Cathy Jones, Sian Lloyd, Christine Pitts, Ann Vaughan Evans, Gillian Vaughan Jones, Catrin Lloyd Roberts.

Mamaeth: Rhian Lloyd, Sian Lloyd, Marekee Latham, Christine Pitts, Ann V. Evans, Gillian V. Jones, Alison M. Jones, Catrin Lloyd Roberts. **Ymladd Tân:** Eifion Griffiths, Gareth Owen, Catrin Lloyd Roberts. **Gofal Cymdeithasol:** Eifion Griffiths, Alison Mary Jones, Gillian Vaughan Jones, Catrin Lloyd Roberts.

Cymorth Cyntaf: Llifon Arwyn Foulkes, Eifion Griffiths, Daryl Griffiths, Llion Hughes, Neil Owen, Dylan Parry, Geraint Wyn Thomas, Trystan Thomas, Marc Lloyd Williams, Cai Lloyd Williams, Gareth Owen, Julie Baylis, Jennifer Clarida, Nia Hughes, Nerys Hughes, Cathy Jones, Lisa Jones, Rhian Lloyd, Sian Lloyd, Marekee Latham, Christine Pitts, Sharon Roberts, Einir Thomas. **Y Dosbarth Iau:** Lyn Davies, Tracy Fleming, Miriam Thomas, Catherine Williams, Carys Williams, Michelle Willis, John Elwyn Foulkes, Jason Bryniog Jones, Derfel Owen, Edward Rogers, Anthony Rogers, Euron Thomas.

O'R YSGOL: (Dolbadarn) Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed (chwech yr ochr) yr ysgol ar ennill tarian Eco'r Wyddfa am y flwyddyn hon. Aelodau'r tîm oedd Marc Williams (captain), Cai Williams, Tristan Reese, Edward Rogers, Geraint Thomas, Justin Torr, Ian Lloyd Hughes, a Daryl Griffiths. Diolch i Mr Iwan Williams, rhieni eraill ac i Mr Teifion Thomas am hyfforddi'r plant.

YMGYRCH GWERTHU LLYFRAU CYMRAEG: Enillwyd y ddwy wobwr am werthu mwyafrif o lyfrau yn ystod yr Ymgyrch elenigan Nia Wyn Roberts a Christine Pitts. Llongyfarchiadau i'r ddwy eneth am eu cyfraniad tuag at yr ymgyrch.

YMDDEOLIAD MISS ENID ROBERTS: Ar y dydd olaf o'r tymor ffarwelwyd â Miss Enid Roberts, Pennaeth Adran y Babanod, wedi

Bistro

45 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro



Rhai o Gymry Alltud Carnifal Llanberis.

LLANBERIS (Parhad)

cyfnod o ddeng mlynedd ar hugain o ddysgu yn yr ysgol. Diolchodd y prifathro i Miss Roberts am ei chyfraniad gwerthfawr i addysg plant yr ardal ac hefyd am ei chydweithrediad a'i hynawsedd bob amser.

Ar ran bawb o'r ysgol yn ogystal â'r Llywodraethwyr a chyfeillion eraill cyflwynwyd siec yn rhodd i Miss Roberts a dymunwyd iddi ymddoliad dedwydd.

GWOBR Mr Selwyn Griffith, Prifathro Ysgol Rhiwlas:

Diolch i Mr Selwyn Griffith, a fu'n athro yn yr ysgol am ei wobwr blynyddol i'r disgybl a ddangosodd fwyaf o gynnydd yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Eleni, enillwyd y wobwr gan Christine Pitts. Llongyfarchiadau Christine.

FFARWELIO Â DISGYBLION: Ar ddydd olaf o'r tymor ffarweliwyd â 32 o ddisgyblion a fydd yn mynychu Ysgolion Uwchradd ym Medi. Dymunwyd pob llwyddiant iddynt i'r dyfodol.

Ffarweliwyd hefyd â Helen Gartside a fydd yn mynychu ysgol ym Mae Colwyn y tymor nesaf. Dymunwyd pob llwyddiant iddi hithau.

Hefyd ffarweliwyd â Mrs Helen Parry a fu'n athrawes llanw yn yr ysgol am gyfnod. Diolchwyd i Mrs Parry am ei chyfraniad i'r ysgol yn ystod cyfnod y bu'n dysgu yma.

LLONGYFARCHIADAU i Sharon Wyn Roberts, am ennill Crys T gan gwmni teledu S4C ac hefyd i Bryn Lloyd Roberts am ennill medal bres am nofio.

CYNGERDD: Brynhawn dydd Iau, Gorffennaf 12, cynhaliwyd cyngerdd yn neuadd yr ysgol gyda Mr Adam Veolker, ei gyfaill Nick, a'r plant canlynol yn cymryd rhan - Euron Thomas (ffidil), Catherine Gray-Williams, Marieke Latham ac Alan Pritchard (clarinet), Angharad Rudkin a Trystan Thomas (ffliwt). Treuliodd awr bleserus yn gwrandao ar berfformiadau o safon uchel iawn.

LLONGYFARCHIADAU i Anna Lloyd Roberts ar ennill medal arian am nofio ac hefyd y drydedd wobwr mewn gala yn y Fflint.

CYSTADLEUAETH ADNABOD LLANBERIS: Yn ddiweddar cynhaliwyd cystadleuaeth gan Mrs S. Lowe i blant ysgol Dolbadarn. Y dasg oedd lliwio poster yn ymwneud â'r ardal. Roedd lluo o wobrau godidog i'w hennill, a dyma'r rhai fu'n llwyddiannus - Y wobwr gyntaf - Simon Williams ac Euron Thomas (trip ar y trê bach i ben yr Wyddfa). Llion Hughes a Gareth Lucan (mynd ar y llyn mewn canŵ Indiaid). Yr ail wobwr: Christine Pitts a Michelle Willis (marchogaeth ceffylau Gwesty Dolbadarn am awr gron gyfan). Y rhai nesaf ar restr llwyddiant oedd y canlynol: Julie

Baylis, Helen Thomas, Nicola Baylis, Lynne Davies a Karen Price a Ruth Cousins. Eu gwobr hwy oedd trip ar y trê bach o gwmpas y llyn. Hefyd cafodd Hannah Rudkin, Bruce Turner, Glenda Jones a Stephen Lee Jones brynhawn difyr yng ngweithdy Crefftiau Padarn. Dymuna'r prifathro ddiolch i Mrs Lowe am drefnu'r gystadleuaeth ac i'r cyfeillion a roddodd y gwobrau.

CROESO I ATHRAWES NEWYDD: Croeso cynnes i Miss Susan Wynne Owen a fydd yn dechrau ar ei dyletswyddau fel athrawes yn Adran y Babanod ym mis Medi. Brodor o Edern yw Miss Owen a chafodd ei hyfforddiant yn y Coleg Normal, Bangor. Mawr hyderwn y bydd Miss Owen yn cartrefu yn hapus yn yr ysgol.

DIOLCH: Dymuna Miss Enid Roberts ddiolch yn gywir iawn i bawb a gyfrannodd tuag at y rhodd a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad, hefyd i bawb am eu hanrhegion, eu cardiau a'u dymuniadau da.

DIOLCH ERIC: Ia wir diolch yn fawr i Eric Bayliss am ei weithgarwch cyson a diwyd iawn am nosweithiau lawer yn twtio a pheintio ac addurno'r cerbyd ar gyfer 'Brenhines yr Wyddfa'. Roedd coets Llanberis ar Sadwrn y Carnifal yn hardd iawn, a'r blodau lliwgar yn ddeniadol dros ben. Biti na baimodd i fynd â'r frenhines o gwmpas y fro o granifal i garnifal fel y breninesau a ddaeth i gyfarch y frenhines Jaci, yn y Goets Arian.

DIOILCH hefyd i'r mamau fu'n cynorthwyo gyda dilladu a threfnu'r trefniadau ar gyfer coroni brenhines y carnifal - hefyd dysgu'r dawnswyr bach - Mrs Meirwen Bayliss a Mrs Catherine Lloyd Williams.



PRIODAS: Yn Eglwys Sant Padarn ar Fai 26 priodwyd Caroline, merch Mr a Mrs E.W. Toleman, 10 Maes Padarn, a Carl, mab Mr a Mrs H. Scholze, Yr Ynys Wen, Llanberis. Dymuna'r ddau ddiolch i bawb o'u

cyfeillion, cymdogion a theulu am eu caredigrwydd yn ystod eu priodas.

LLONGYFARCHIADAU: calonnog iawn i Mrs Mair Lloyd Roberts, Stryd Warden ar fod yn nain unwaith eto. Rhyw bythefnos yn ôl daeth y newyddion da o Lerpwl fod gan Helen ei merch fab bychan - brawd bach i Sian ac Elin. Cymro bach newydd sbon yw Bryn ynghanol Saeson. Bendith arno a'r teulu bach i gyd.

LLONGYFARCHIADAU EISTEDDFODOL: Estynnir llongyfarchiadau calonnog iawn i Rhian Owen, Stryd Siarlott am ei llwyddiant gyda'r unawd a'r ddeuawd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanbed. Bu Alison Edwards, Maes Padarn yn dra brysur yn yr Eisteddfod hefyd yn cystadlu ar yr unawd gerdd dant a'r gân werin.

YN YR YSBYTY: Dymunwn adferiad iechedd buan i Mrs Meira Pitts, 2 Pen-y-bont, Ffordd Capel Coch, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Dewi Sant yn derbyn triniaeth llawfeddygol.

COFIO HIROSHIMA: Nos Sadwrn, Awst 11 cafwyd araith ar lan Llyn Padarn gan y Parch R.S. Thomas, a daeth cynulliad da ynghyd i wrando'r canu, ac i gynnu canhwylau bychain a fu'n nofio hyd wyneb y llyn am oriau lawer.

MARWOLAETH: Douglas Toleman - Tra yn gwyllo cystadlaethau nofio ar Llyn Padarn, tarawyd Douglas Toleman, Dôl Eilian yn wael. Aethpwyd ag ef i Ysbyty Môn ac Arfon lle y bu farw'r dydd dilynol - Gorffennaf 29. Bachgen dymunol iawn ydoedd yn gymeriad caredig a hoffus, yn barodeig gymwynas i bawb bob amser. Ni welwyd gŵg ar ei wyneb erioed - ond gwên radlon braf i gyfarch pawb - a rhyw ddireidi yn ei gyfarchion bob ac yn ail. Dyn yr awyr agored ydoedd Douglas, yn hoff iawn o bysgota am oriau lawer, ac ymddiddori mewn gwyllo'r adar o gwmpas yr Wyddfa - ac yn ymfalchio yn rhai o'r lluniau gwych a gafodd o rai adar gyda'i gamerau gwerthfawr. Er nad oedd ganddo frodyr a chwiorydd, ac ond ychydig deulu, roedd ei gyfeillion yn ddi-rifedi - ffrind i'r plant a'r oedolion ydoedd, a chwith i'r ardal o'i golli.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn gyda'r Parch Gomer Richard Jones yn gwasanaethu, a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Nant Peris. Cydymdeimlir â'r teulu i gyd yn eu colled.

Richie Roberts, Woodville, Ffordd Capel Coch - Fel 'Richie Penbryn' yr adwaenai pawb ef - nid yn unig drigolion yr ardal hon, ond trigolion yr ardaloedd a'r tyddynnod o gwmpas. Pobwyd ydoedd wrth ei

alwedigaeth, a dechreuodd weithio gyda'i dad yn 14 oed. Pan ddaeth y Rhyfel Byd Cyntaf (1914-18) ymunodd â'r fyddin a bu'n gweithio fel pobydd yn Newhaven a Seaford Sussex drwy'r amser.

Agorodd ei dad y becws cyntaf yn Stryd yr Wyddfa a daeth Richie a'i frawd 'Wil' i weithio gyda'u tad. Roeddynt yn cario bara i bob pentref o gwmpas Llanberis ac yn mynd i leodd anghysbell iawn i ofalu nad oedd yr un teulu bach heb eu "bara beunyddiol."

Yn ddiweddarach ymunodd y teulu Pen Bryn ag adeiladau becws arall a siop hwylus iawn lle y bu busnes llewyrchus iawn am 60 mlynedd.

Cymeriad hynod o gydwybodol ydoedd, nid yn unig gyda'i orchwylion, ond gyda phopeth a ymddiddorai ynddo. Roedd Richie yn gymwynaswr a chyfaill trylwyr, ac roedd ganddo farn bendant iawn.

Ei hoff ddifyrrwch ydoedd pêl-droed, a bu'n gefnogwr ffyddlon iawn tra gallai i'r Clwb Pentref. Bu'n llywydd y pwyllgor aml i dro, a'i hoff bleser fyddai dilyn llwyddiant y clwb.

Aelod o gapel Seion - y Bedyddwyr ydoedd, a bu ef a'i briod yn ffyddlon i'r achos hyd i'r hen gapel bach gau rai blynyddoedd yn ôl. Pan gaeodd y drws ni fynnai ymaelodi ag unrhyw eglwys arall. Ymunodd â'r Bedyddwyr yn Libanus, Clwt-y-bont - roedd yn Fedyddiwr i'r carn.

Mab a merch oedd ganddo, Glyn, a ddilynodd alwedigaeth ei dad ac aeth i'r Coleg yng Nghaerdydd i arbenigo â melysfwydydd, ac yna daeth i Benbryn i weithio yn y becws. Helen ei chwaer fu'n gofalu am y siop a'r arwerthiant.

Wedi colli ei briod aeth Richie yn wael ei iechedd ac yn raddol gwaethygod. Gorfu i'r teulu werthu'r busnes, ac wedi hyn treuliodd ei amser rhwng cartref ei fab Glyn yn Llanddaniel (lle mae yn ffermio), a chartref ei ferch Helen. Tra yn aros gyda Glyn, fe'i cymerwyd yn wael ac aed ag ef i'r ysbyty ym Mangor lle y bu farw ar Awst 13. Claddwyd ei weddillion yn Nant Peris, gyda'r Parch Gwynfor Williams yn gwasanaethu.

Cydymdeimlir â Glyn a'i briod a'i ferch Heulwen, Helen a'i phriod a'i mab Gareth, a'r gweddill o'r teulu yn eu colled.

ENNILL GWOBR: Enillodd Susan Jane Panton, Mur Cwmp, yr ail wobwr a roddwyd gan W.H. Smith a'r banc TSB am gynllunio cerdyn Nadolig. Disgybl o Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon yw Susan. Cyflwynir y tystysgrif iddi yn Llundain gan yr actor Colin Baker, sydd yn fwy cyfarwydd fel 'Dr Who'. Llongyfarchiadau Susan.

Blwyddyn yn ôl gadawodd Carys,



Robin Hwd neu Dafydd ap Siencyn o Garnifal Llanberis.

BWRDD FFILMAU CYMRAEG SINEMA DEITHIOL

Yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf bwriada'r Bwrdd Ffilmiau drefnu Sinema Deithiol ledled Cymru yn dangos detholiad o ffilmiau Cymraeg. Bydd darpariaeth gogyfer â phlant ac oedolion.

Os ydych yn awyddus i gynnwys rhaglen o ffilmiau fel rhan o weithgarwch eich cymdeithas neu ysgol ac ati, yna cysylltwch â'r Bwrdd am ragor o fanylion o'r cyfeiriad isod:

Bwrdd Ffilmiau Cymraeg, Yr Hen Goleg Normal, Ffordd y Coleg, Bangor. Ffôn: 364687.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio Prynu o Batrymau?

LLANBERIS (parhad)

merch hynaf Mr a Mrs Eurwyn Jones, Delfryn, Ffordd Capel Coch, Ysgol Brynrefail a chychwyn ar ei gyrfa fel nyrs yng nghylch Lerpwl. Cafodd flwyddyn galed iawn, yn astudio yn ysgol yr ysbyty, ac yn ymweld â gwahanol rai o ysbytai mawr Lerpwl. Yr wythnos ddiwethaf daeth y newydd da iddi ei bod wedi llwyddo yn anrhydeddus iawn yn yr oll o'r arholiadau, ac mae'n awr yn dechrau ar ail gwrs nyrsio.

Campus iawn Carys - daliwch ati, er bod y gwaith yn anodd - dymunir bob llwyddiant i chi.

CASGLIADAU: Casglwyd y swm anrhydeddus o £19.02 at Gronfa'r Galon gan aelodau o Glwb y Mamau Ifanc.

Casglwyd £32.95 at Gartref Eithinog a dymuna'r trefnydd Eleri Tudor Ellis ddiolch i'r casglyddion a'r cyfranwyr am eu haelioni.

CLWB BYDDAR GWYNEDD: Yng nghyfarfod diweddaraf o'r Clwb i'r Byddar a gynhaliwyd yn Llanberis cyflwynwyd siec am £115 i'r trysorydd, Terry Williams, gan ddwy aelod o'r Felinheli. Bu'r ddwy, Mrs Rita Roberts a Mrs Shirley Thomas yn cynnal arwerthiant yn yr ysgol leol er codi arian isicrhau ychydig o wyliau yn ystod yr haf yma i aelodau clwb y byddar yng Ngwynedd. Bydd yr aelodau yn ymgynnull yng Nghlwb Gwynedd (sydd drws nesaf i Westy Gwynedd) unwaith y mis, ac mae croeso mawr i unrhyw un alw heibio i ymweld â'r teulu llawen a chroesawus yma.

DAMWAIN: Da iawn deall fod Mrs Doreen Ward, Maes Padarn yn gwella'n dda wedi iddi gael damwain tra'n cerdded y ffordd tua Gwesty Padarn Lake. Hefyd, Deborah Owen, Dôl Elidir a gafodd ddamwain ddiwrnod y carnifal, a hapus yw gwybod ei bod hithau wedi gwella.

CADW CŴN: Ar ôl blynyddoedd o ofalaeth cyson gyda chŵn Labrador y mae Gareth, Bod Owen, Teras Cambrian o'r diwedd yn ennill sylw iddo ei hun gyda llwyddiant y cŵn. Y llynedd cafodd wobrau ym mhrif siogw'n Prydain - 'Crufts' ac ar hyn o bryd mae'n darparu pedwar o'i gŵn at sioeau yma ac acw drwy'r wlad. Yn yr Amerig mae un o'i gŵn Labrador yn ennill gwobrau lu - ac mae galw mawr am rai o'r cŵn bach o bell ac agos.

Dymunir i chi lwyddiant mawr yn 'Crufts' Gareth, ac ymhob sioe arall.

SEFYDLU RHEITHOR: Yn Eglwys Sant Padarn nos Wener, Awst 10 cafwyd gwasanaeth arbennig iawn, sef sefydlu'r Parch Allen John Hawkins, BA., MA, yn Rheithor ar Eglwys Sant Padarn a Sant Peris. Roedd yr eglwys yn orlawn a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth

gan yr Esgob Mears, Bangor, Yr Arch Esgob Bailey Hughes, Y Canon Richard Jones a Mr Huxley Thomas wrth yr organ. Estynnir croeso cynnes iawn gan yr holl ardalwyr i'r rheithor newydd, ei briod a'i ddau blentyn bach.

LLONGYFARCHIADAU i holl blanty pentref ar eu llwyddiant yn Arholiadau Lefel 'A' a Lefel 'O'.

DIOLCH: Dymuna Eryl a John Hughes, 11 Field Terrace, Goodman Street, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Michelle Ann.

CARNIFAL

Cystadlaethau gwisg fansi: cyfyngedig i blant Llanberis yn unig, dan 3 oed unrhyw wisg: 1, Boy George - Mark Andrew Parry; 2, Y Falwen - Cadell Whittaker; 3, Y Cawen - Odette Fleming.

3-5 oed, a) cymeriad adnabyddus: 1, Y Corach - Ian Ellis; 2, Miss Chipperfield - Friar Whittaker; 3, ET - Edward Adams. b) gwisg hysbysebu: 1, Martini - Nicole Lwyd Hughes; 2, Caernarvon & Denbigh - Victoria Walker; 3, Smiths Crisps - Sarah Jones.

6-7 oed, a) cymeriad adnabyddus: 1, Incredible Hulk - Rodney Morris; 2, Boy George - Sara Pepper; 3, Y Wrach - Carys Reynolds. b) gwisg hysbysebu: 1, Angel Delight - Rhian Thomas.

7-9 oed, a) cymeriad adnabyddus: 1, Mr. T - Gerallt Williams; 2, Boy George - Dylan Williams; 3, Clint Eastwood - Dylan Williams. b) gwisg hysbysebu: 1, Weetabix - Ian Aled Sam; 2, Y Syrcas - Mark Ellis; 3, Yorkshire Bitter - Iona Vaughan.

9-12 oed, unrhyw wisg: 1, Robin Hood - Elwyn Foulkes; 2, Worzel Gummidge/Aunt Sally - Lynn Davies/Michelle Willis; 3, Y Clown - Kathy Jones. 12-16 oed, unrhyw wisg: 1, Newspaper Girls - Bethan Owen, Bethan Jones, Janice Hughes; 2, Executioner - Christopher Hughes; 3, Y Ddraig Goch - Mark Williams.

Cymeriad unigol gorau o'r enillwyr uchod cwpan neu dlws: 1, Y Corach - Ian Ellis.

Dros 16 unrhyw wisg: 1, Padarn Punks - Gloria a Mona; 2, Marilyn Monroe a Jayne Mansfield - Alan Jones a Gareth Jones; 3, Prince Charles a Lady Diana - Glenys Owen a Andrea Jones.

Agored: dan 9 unrhyw wisg: 1, Pearly King Deiniolen - Eilir Wyn Williams; 2, Y Blaned Felys - Alaw Mari Hughes; 3, Y Robot - James Stutt.

10-16 unrhyw wisg: 1, Brenhines y Calonnau - Amelia Jones; 2, Cowboys - Nicholas Dodd; Michele Lad.

Tablo stryd ar olwynion: 1, Tinceraiad Maes Padarn; 2, Fairy Tales. Grŵp gorau ar droed: 1, Byd o Gân. Pâr Digri: 1, Pry Copyn a'r Pry - Vera Lynn a Nia Thomas. Pram wedi ei addurno: 1, Emma Victoria Parry; 2, Kevin Wyn Griffith.

Beic wedi ei addurno: 1, Louise Ellis; 2, Stephen Hughes. Gwobr arbennig - tablo stryd ar olwynion

(Llanberis yn unig): 1, Tinceraiad Maes Padarn.

Brenhines Shelly o Bwlheli a ddyfarnwyd yn frenhines wadd orau a Brenhines Julie o Ddeiniolen oedd â'r car addurniedig gorau.

Enillwyr Majorettes - Tinies: 1, Deiniol, £10; Iau: 1, Deiniol £15; Hŷn: 1, Rachub, £20.

Enillwyr Raffl, £50 - B. Thomas, Bodfair, Felinheli; £30 - M. Williams, Nordoncliffe, Vaynol St., Caernarfon; £20 - E.E. Roberts, Frondeg, Llanberis; V Hughes, Beech Bank, Llanberis; Carys Jones, Isgoed, Dinas, Llanwnda; Nia Thomas, 89 Maes Padarn, Llanberis; Darren Ellis, 54 Maes Padarn, Llanberis; Gillian Williams, Glyn Afon, Llanrug; June Jones, 4 Disgwylfa Terrace, Llanrug; R Hughes, 6 Bro Rhos, Bethel; Valerie Rowlands, 94 Maes Padarn, Llanberis; Evan Williams, 1 Bryn Gro, Llanrug; N Parry, 7 Maes Padarn, Llanberis; John Williams, Greengate St., Caernarfon; D Jones, 21 High St., Llanberis; Clifford Thomas, 1 Bron Hendre, Trefor; H Williams, Glyn Afon, Llanrug.

MABOLGAMPAU

Ddôl y Goeden: Cropian - toddlers' race: 1, Sian Elin Harding; 2, Claudia O'Donnell; 3, Andria Scase. Babanod 2-3 oed: 1, Aron Roberts; 2, Janet Foulkes; 3, Leslie Sage. Dosbarth Meithrin Dolbadarn genethod: 1, Sarah Ann Jones; 2, Tashia Allsopp; 3, Tracey Griffith. Dosbarth Meithrin Dolbadarn bechgyn: 1, Mark Davies; 2, Liam O'Donnell; 3, Dahlia Cussons.

Dosbarth 1af Dolbadarn genethod: 1, Marie Carr; 2, Victoria Walker/Nicole Hughes; 3, Elenor Grey-Williams. Dosbarth 1af Dolbadarn bechgyn: 1, Lliffon Owen; 2, Owain Jones; 3, James Stott. Dosbarth 2 Dolbadarn genethod: 1, Manon Williams/Manon Roberts; 2, Jennifer Owen; 3, Angela Willis. Dosbarth 2 Dolbadarn bechgyn: 1, Mark Newton; 2, Ewan W. Davies/Gavin Carr; 3, Aled Ll. Hughes.

Dosbarth 3 Dolbadarn genethod: 1, Sandra Nisbett; 2, Gail Tanfield; 3, Angela Williams. Dosbarth 3 Dolbadarn bechgyn: 1, Colin Ellis; 2, Huw O'Donnell; 3, Jason Bayliss. Safon 1 Dolbadarn genethod: 1, Catherine Walker; 2, Elin Angharad; 3, Clare Owen. Safon 1 Dolbadarn bechgyn: 1, Iestyn Pritchard; 2, Alwyn Thomas; 3, Arwyn Jones Hughes.

Safon 2 a 2-3 Dolbadarn genethod: 1, Llinos Jones; 2, Miriam Thomas; 3, Rhian Roberts. Safon 2 a 2-3 Dolbadarn bechgyn: 1, Allin Bayliss; 2, Shane Price; 3, Ian Ll. Hughes. Safon 3 Dolbadarn genethod: 1, Lyn Davies; 2, Anette Sellers; 3, Linda Prydderch. Safon 3 Dolbadarn bechgyn: 1, Caill Ll. Williams; 2, Edward Rogers; 3, Geraint Evans. Safon 4 Dolbadarn genethod: 1, Jennifer Clarida; 2, Lynn Jones; 3, Delyth Davies. Safon 4 Dolbadarn bechgyn: 1, Mark Ll. Williams; 2, Simon Williams; 3, Darrell Griffiths.

Dosbarth 1 Brynrefail genethod: 1, Wendy Rowlands; 2, Samantha Lowe; 3, Delyth

Williams. Dosbarth 1 Brynrefail bechgyn: 1, Jonathon Cussins; 2, Aled ap Deryl; 3, Robert Grey-Williams. Dosbarth 2 Brynrefail genethod: 1, Nia Owen; 2, Diane Jones; 3, Nia Thomas. Dosbarth 2 Brynrefail bechgyn: 1, Andrew Griffiths; 2, Gareth Owen; 3, Glyn Hughes.

Dosbarth 3 Brynrefail genethod: 1, Andrea Roberts; 2, Sharon Prydderch. Dosbarth 3 Brynrefail bechgyn: 1, Terry Saynor; 2, Ian Evans; 3, Elfed Roberts. Dosbarth 4-5 Brynrefail genethod: 1, Petula Williams; 2, Nicola Prydderch. Dosbarth 4-5 Brynrefail bechgyn: 1, Gareth Williams; 2, Darren Roberts.

100 llath agored: Dolbadarn: 1, Jennifer Clarida; 2, Lynn Jones. Brynrefail: 1, Gareth Williams; 2, Terry Saynor. Extra race 16-18 oed: 1, Ian Pritchard; 2, Nigel Rowlands. 100 llath, dynion dros 30 oed: 1, Alan Jones; 2, Eifion Roberts; 3, Eurwyn Thomas. 100 llath, merched dros 16 a than 30 oed: 1, Melanie Sellers; 2, Glenda Williams. 100 llath, merched rhwng 30 a 40 oed: 1, Gillian Stott; 2, Carys Williams.

Râs filltir agored (tlws): 1, Kevin Prydderch; 2, Michael Roberts; 3, Paul Prydderch. Râs deircoes Ysgol Dolbadarn, merched: 1, Jennifer Clarida/Lynn Jones; 2, Michelle Willis/Lynn Davies; 3, Sharon Roberts/Shurmane Sander Kam. Râs deircoes Ysgol Dolbadarn, bechgyn: 1, Tristan Rees/Cai Williams; 2, Bryn Roberts/Geraint Thomas; 3, Stephen Bayliss/David Ellis. Ysgol Brynrefail, genethod: 1, Diane Jones/Nia Owen; 2, Bethan Jones/Bethan Owen; 3, Wendy Rowlands/Maria Willis. Bechgyn: 1, Andrew Owen/Gary Jones; 2, Jason and Paul Roberts; 3, Gareth Owen/Gwyn Hughes. Râs deircoes agored, merched: 1, Jane Jones/Elaine Evans; 2, Margaret Owen/Janet Scase; 3, Jennifer Jones/Amanda Sellers. Râs deircoes agored, men: 1, Paul Thomas/Nigel Rowlands; 2, Terry Griffith/David Prydderch; 3, Darren Roberts/Kevin Jones.

Râs Tim o Bedwar Ysgol Dolbadarn, genethod - one winner: 1, Jennifer Clarida/Lynn Jones. 2, Julie Bayliss, Delyth Davies. Râs Tim o Bedwar Ysgol Dolbadarn, bechgyn - one winner: 1, Mark Williams; 2, Darrell Griffith; 3, Cai Williams; 4, Simon Williams. Râs Tim o Bedwar Ysgol Brynrefail, genethod - one winner: 1, Nia Owen; 2, Emma Roberts; 3, Diane Jones; 4, Nia Thomas. Râs Tim o Bedwar Ysgol Brynrefail, bechgyn - one winner: 1, Paul Prydderch; 2, Barry John Jones; 3, Eifion Griffiths; 4, Aled ap Deryl.

Râs araf beic Ysgol Dolbadarn, genethod: 1, Linda Prydderch. Râs araf beic Ysgol Dolbadarn, bechgyn: 1, Justin Tow. Râs araf beic Ysgol Brynrefail, genethod: 1, Bethan Jones. Râs araf beic Ysgol Brynrefail, bechgyn: 1, Darren Ellis.

Râs gyffym beic, genethod/merched, agored: 1, Lynn Jones.

Enillwyd y raffl tuag at Gronfa'r Arennau gan Mr John Selwyn Williams, Bryn Hyfryd, Brynrefail.

GWEITHDY DRAMA W.E.A.

(mewn cydweithrediad â Theatr Bara Caws)

DALIWCH SYLW -

chwi actorion a darpar-actorion. Cynhelir Gweithdy i ymdrin yn ymarferol â chrefft Y DDRAWA, yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis, ar nosweithiau Mercher am 7.00.

Cyfres o 5 cyfarfod

Y cyfarfod cyntaf - Hydref 3

Tâl am y gyfres £4.00

CROESO I BAWB

Am fwy o fanylion cysylltwch ag Ifor Baines, Athro-Drefnydd, Penygroes 881328

AM FFENESTRI DRYSAU GRISIAU

neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

BRYN

LLANBERIS 870793


B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO



Buddugwyr Pêl-droed 5-bob-ochr Carnifal Llanberis - tîm Maes Padarn.

MARN: Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Elisabeth Ellen Jones, 5 Maes Padarn. Ein cydymdeimlad â'i phlant a Helen a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

CROESAIR MEDI



AR DRAWS:

1. Un o'r gwyddorau (7)
 5. Siarad yn amharhys (5)
 8. Cwffio (5)
 9. "Dim ond ... o'u cylch ym mhob man" (7)
 10. A mab y Tori yn gwneud ei hun yn barod (9)
 12. ... Rush, Lerpwl a Chymru (3)
 13. Cwm Bychan (6)
 14. Cawsom dywydd fel hyn ganol Awst (6)
 17. 12 yn gwneud perthynas gwrywaidd (3)
 18. Rhodres, maldod (9)
 20. Gwaeledd (7)
 21. Perffaith (5)
 23. Offeryn (5)
 24. Dŵr o gig rydd fochau coch! (7)
- I LAWR:**
1. Caffi (5)
 2. Yr hyn ddywedodd Wil wrth y wal! (3)
 3. Difyr (7)
 4. Lle i aros (6)
 5. "Ehanga 'mryd a gwared fi Rhag ... o bob rhyw" (5)
 6. Sanctaidd (9)
 7. Diffyg amrywiaeth (7)
 11. Llesol (9)
 13. Rhywbeth sy'n hongian? Nage'n sicr!
 15. Holli (7)
 16. Yng nghanol rhyddhad mae'r tir yn cael ei droi (6)
 18. Tri ... bach, stori i'r plant (5)
 19. Stori yn cynnwys neges (5)
 22. Amcan y marc clust? (3)
- Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll,

ph, rh, th.

Anfonwch eich cynigion i **Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.** Bydd gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

Atebion Croesair

Gorffennaf-Awst

AR DRAWS: 1. Mis Medi. 8. Celyn. 9. Ian. 10. Llwl. 11. Pwl. 13. Twb. 16. Dyffryn Lliw. 17. Urdd. 18. Ras. 23. Mes. 24. Dol. 25. Arafu. 26. Blaenor.

I LAWR: 2. Swnt. 3. Enlli. 4. Iach. 5. Acen. 6. Glep. 7. Yn ôl i'r Ysgol. 9. Iâr Fach yr Haf. 12. Ewythr. 13. Tyrru. 14. Bonedd. 15. Crino. 19. Safn. 20. Drud. 21. Ysfa. 22. Odyn. 23. Mab.

Enillydd: Mrs Jean Hughes-Jones, Llys Gwilym, Pencaerau, Rhiw, Pwllheli.

COFIO GWESTY GLAN EILIAN LLANBERIS

Yn dilyn lluniau o'r gwesty uchod, derbyniwyd atgofion am blentyndod un o ddarlennwyr yr 'Eco' yno. Yn anffodus ni chawsom yr enw. A fyddai'r awdur cystal â chysylltu â ni os gwelwch yn dda?

Y CANFED RHIFYN

Rhifyn Chwefror 1985 fydd y canfed rhifyn o'r Eco. Anfonwch awgrymiadau i'r golygyddion ynglŷn â chynnwys y rhifyn hwnnw.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

**Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)**

DYDDIADUR

MEDI:

4, Mawrth. BETHEL: Clwb Bro Bethel yn Ffestri Capel Cysegr.

6, Iau. WAUNFAWR: Sefydliad y Merched - trefnu blodau yng nghwmni Miss Maud Williams yn Ffestri Capel Croes y Waun am 7.15.

LLANBERIS: Y Gymdeithas Lenyddol - Cwis rhwng timau yn cynrychioli Llanberis, Deiniolen, Llanrug a Nant Peris yn Ffestri Capel Coch am 7.30.

7, Gwener. LLANBERIS: Te yr Henoed.

DEINIOLEN: Bingo y Seindorf am 7.30 yng Nghwt y Band.

8, Sadwrn. DEINIOLEN: Taith ddigel Merched y Wawr.

11, Mawrth. DEINIOLEN: Clwb Elidir yn y Cinio.

BETHEL: Gwibdaith Clwb Bro Bethel.

12, Mercher. WAUNFAWR: Yr Urdd - Noson ymaelodi yn yr ysgol am 6.00

14, Gwener. DEINIOLEN: Bingo'r Seindorf yng Nghwt y Band am 7.30.

17, Llun. DEINIOLEN: Merched y Wawr - sgwrs gan Mr Arthur Rowlands, Caernarfon yn y Ganolfan am 6.45.

18, Mawrth. PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen.

20, Iau. LLANRUG: Clwb Blodau'r Grug yn y Sefydliad Coffa am 2.00.

21, Gwener. LLANBERIS: Te'r Henoed.

LLANRUG: WEA Cangen Cylch Caernarfon - sgwrs gan Mr Huw Williams, M.A., Bangor ar 'Sain a Synnwyr', yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.

DEINIOLEN: Bingo'r Seindorf yng Nghwt y Band am 7.30.

27, Iau. WAUNFAWR: Merched y Wawr - noson yng nghwmni Miss Jini Owen, Bangor.

28, Gwener. WAUNFAWR: Noson Agoriadol y Ganolfan am 7.30.

DEINIOLEN: Bingo'r Seindorf am 7.30 yng Nghwt y Band.

DYDDIADAU I'W COFIO

TACHWEDD 3 - Eisteddfod Bethel a'r Cylch.

TACHWEDD 17 - Eisteddfod Waunfawr.

NOSON AGORIADOL CANOLFAN WAUNFAWR

Charles Williams
yn cyflwyno

Dafydd Edwards (tenor)
Ifan Lloyd (bass)

a

Chôr Meibion y Penrhyn

Nos Wener, Medi 28
am 7.30

PINIWN

Darlledir y rhaglen radio
boblogaidd uchod yng
Nghanolfan Waunfawr

NOS IAU, TACHWEDD 8
am 7.30 o'r gloch

Bydd Gwilym Owen yno i
trafodaeth am un o

godi bynciau llosg y dydd.
MYNEDIAD AM DDIM
Croeso i bawb

DEINIOLEN (Atodiad)

GRADD: Llongyfarchiadau i John Wyn Roberts, mab hynaf Mr a Mrs John Roberts, 47 Rhydfadog ar ei lwyddiant yn ennill gradd B.Ed. Y mae ar hyn o bryd yn brifathro yn ysgol Higher Cych, ger Malpas, Swydd Caer.

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?

**A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?**

**Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod
yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.**

**Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol
ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym
wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i
lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.**

**Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus
gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch
cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar
gael i rai mathau o weithgareddau.**

**Mae eich swyddfa leol ym Mangor.
Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un
o'n cynghorwyr; cewch drafod eich
syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.**

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

**Welsh
Development Agency**

CHWARAEON

PENCAMPWRIAETH CHWECHAWD PÊL-DROED 'ECO'R WYDDFA'

Efallai i rai ohonoch sy'n selogion S4C ddilyn hynt Pencampwriaeth Chwechawd Pêl-droed Cymru yn ddiweddar, ond gallwn eich sicrhau bod cystadleuaeth llawer gwell wedi digwydd ar gae chwarae Ysgol Llanrug ddechrau fis Gorffennaf. Pum tîm o ardal yr Eco yn ymgiprys am Dlws Eco'r Wyddfa – sef Waunfawr, Llanberis, Llanrug A, Llanrug B, a Bethel y deiliaid.

Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar ffurf cynghrair gyda bob tîm yn chwarae pedair gêm yn y rownd gyntaf. Roedd cystadlu mor frwd nes peri cryn drafferth i'r trefnwyr, yn wir, roedd problem fathamategol i'w datrys! Ar ôl cwblhau'r rownd gyntaf roedd Llanberis wedi sicrhau digon o bwytiau i ymddangos yn y gêm derfynol, ond y cwestiwn mawr oedd pwy oedd i'w gwrthwynebu. Roedd Waunfawr a'r ddau dîm o Llanrug gyda'r un nifer o bwytiau ac ar ôl astudio'r gwahaniaeth goliau yn ofalus roedd Waunfawr a Llanrug B yn gyfartal. Yn ôl y rheolau Llanrug B a oedd i ymddangos yn y gêm derfynol ar y sail eu bod wedi sgorio mwy o goliau na Waunfawr.

Cafwyd gêm derfynol fythgofiadwy ac ar sawl achlysur

bu'r straen yn ormod i sawl cefnogwr brwd o'r naill ochr! Er i Llanberis fynd un gôl ar y blaen deirgwaith llwyddodd hogia' glew Llanrug i ddod â'r gêm yn gyfartal 3-3 erbyn amser llawn. Yn null traddodiadol pencampwriaethau mwyaf Ewrop roedd yn rhaid wrth amser ychwanegol. Pa dîm tybed fyddai'n llwyddo i ymdopi â'r straen ychwanegol?

Hogia' Llanberis oedd y cryfaf gan lwyddo i sgorio dwy gôl i wneud y sgôr terfynol yn 5-3. Llongyfarchiadau iddynt ac i'r pedwar tîm arall am lwyddo i greu cystadleuaeth ragorol. Diolch hefyd i Mr Dafydd Owen am gyflawni'r gamp o ddyfarnu ac i Mr Edward Ellis am drefnu'r holl weithgaredd. Bethel y llynedd, Llanberis eleni, pwy tybed fydd pencampwyr 1985?

ROWND 1			
LLANRUG A 2	v	LLANRUG B 3	
WAUNFAWR 0	v	BETHEL 0	
LLANRUG B 0	v	LLANRUG A 1	
LLANRUG A 4	v	BETHEL 1	
WAUNFAWR 2	v	LLANRUG B 0	
LLANRUG B 1	v	WAUNFAWR 2	
LLANRUG A 1	v	WAUNFAWR 0	
LLANRUG B 1	v	BETHEL 0	
WAUNFAWR 1	v	LLANRUG B 1	
LLANRUG A 0	v	LLANRUG B 3	

Y Bwrdd Sgorio yn dangos pa mor agos oedd y cystadlu.

TÎM PÊL-DROED YSGOL BRYNREFAIL 1936-1937




Beth am enwau'r chwaraewyr a rhywfaint o hanes y tîm?

PENCAMPWYR TLWS 'ECO'R WYDDFA' LLANBERIS



RAS YR WYDDFA



Y gynffon hir o 400 o redwyr yn cychwyn ar eu taith i gopa'r Wyddfa ar ddiwrnod llethol o boeth.



Mae hyd yn oed y goreuon angen dŵr oer i'w traed ar ôl gorffen! Yr enillydd yn paratoi i olchi ei draed ar ôl torri'r record.



UCHOD:

Law yn llaw dros y llinell — Linda Prytherch a Catrin Jones o Glwb Rhedwyr Eryri yn diweddu'r ras yn gyfartal.

CHWITH:

Paul Prytherch, Llanberis (Eryri) yn derbyn ei wobwrdd oddi wrth enillydd y brif ras.

